# Gwerthuso'r modd y mae Dyletswydd Bioamrywiaeth Adran 6 yn cael ei gweithredu

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron

Gwerthuso'r modd y mae Dyletswydd Bioamrywiaeth Adran 6 yn cael ei gweithredu

Awduron: Nia Bryer, Heledd Bebb, Rob Owen a Sue Rice

Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr adroddiad hwn yn perthyn i'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd Llywodraeth Cymru.

© Hawlfraint y Goron

## Cynnwys


Geirfa ..... 4

1. Cyflwyniad ..... 5
2. Methodoleg ..... 7
3. Cyd-destun polisi a throsolwg o'r ddyletswydd ..... 12
4. Cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd ..... 17
5. Canllawiau ar y ddyletswydd ..... 30
6. Rhwystrau a galluogwyr ..... 39
7. Y gwahaniaeth a wnaed ..... 48
8. Casgliadau ac argymhellion ..... 60

Atodiad A: Arolwg Ar-lein ..... 65

Atodiad B: Canllaw trafod ar gyfer awdurdodau cyhoeddus ..... 69

Ffigur 3.1: Mathau o awdurdodau cyhoeddus a chamau gweithredu posibl i'w cyflawni mewn perthynas â'u swyddogaeth ..... 15

Tabl 4.1: Cynlluniau ac adroddiadau adran 6 a baratowyd gan awdurdodau cyhoeddus ..... 19

Tabl 4.2: Dadansoddiad o gynlluniau ac adroddiadau awdurdodau cyhoeddus ..... 19

Ffigur 4.1: I ba raddau yr oedd yr awdurdodau cyhoeddus a ymatebodd i'r arolwg yn gyfarwydd â'r ddyletswydd ..... 20

Ffigur 4.2: I ba raddau y mae awdurdodau cyhoeddus wedi croesawu'r ddyletswydd ..... 21

Ffigur 4.3: Y cynnydd a wnaed gan awdurdodau cyhoeddus mewn perthynas â'r ddyletswydd ..... 21

Tabl 5.1: Dadansoddiad o p'un a yw cynlluniau ac adroddiadau awdurdodau cyhoeddus yn dilyn canllawiau'r ddyletswydd ..... 31

Tabl 5.2: Yr amcanion NRAP y mae cynlluniau'n cyfateb iddynt (n=45) ..... 31

Tabl 5.3: Asesiad o amcanion NRAP mewn cynlluniau ..... 32

Tabl 5.4: Y gyfatebiaeth rhwng adroddiadau ac amcanion NRAP (n=39) ..... 32

Tabl 5.5: Asesiad o amcanion NRAP yn yr adroddiadau (n=39) ..... 33

Tabl 7.1: Adroddiadau a chynlluniau adran 6 sy’n cyflawni yn erbyn pum thema weithredu NRAP ..... 49

Tabl 7.2: Asesiad o effaith y ddyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus ..... 49

Ffigur 7.1: Newidiadau a welir ar draws awdurdodau cyhoeddus yn sgil cydymffurfio â'r ddyletswydd ..... 50

## Geirfa

| Acronym/Allweddair | Diffiniad |
|---|---|
| CDCC+ | Cydlynwyr Datblygu Cynaliadwy Cymru a Mwy |
| CLILC | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| CNC | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| COG | Coch, Oren Gwyrdd |
| ENRaW | Cynllun Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant |
| NRAP | Cynllun Gweithredu Adfer Natur |
| SMNR | Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy |
| SoNaRR | Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol |
| Y Ddeddf Llesiant | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Comisiynwyd Ymchwil OB3, ar y cyd â Phartneriaeth BRO, gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad o sut y mae dyletswydd bioamrywiaeth adran 6 (y ddyletswydd) yn cael ei gweithredu.

1.2 Nodau'r gwerthusiad oedd:

- sefydlu i ba raddau y mae dyletswydd adran 6 wedi'i gweithredu/y cydymffurfiwyd â hi yn ystod y tair blynedd gyntaf, drwy gynhyrchu cynlluniau ac adroddiadau, a/neu drwy brif ffrydio camau gweithredu ar draws sefydliadau
- ymchwilio i'r galluogwyr a'r rhwystrau i'w gweithredu
- sefydlu i ba raddau y mae'r canllawiau a ddarparwyd wedi bod yn ddefnyddiol, wedi'u dilyn, a pha ganllawiau a/neu gefnogaeth bellach y gellid eu darparu.

1.3 Amcanion y gwerthusiad yw:

- canfod faint o awdurdodau cyhoeddus sydd wedi cyhoeddi cynlluniau ac adroddiadau
- ymchwilio i'r rhesymau pam nad yw awdurdodau cyhoeddus wedi cyhoeddi cynlluniau ac/neu adroddiadau, os yw hynny'n wir
- canfod i ba raddau y mae'r cynlluniau a'r adroddiadau yn cyfateb i ofynion y ddyletswydd, ac a ydynt yn dilyn y canllawiau ac yn defnyddio amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur (NRAP) ar gyfer Cymru
- canfod i ba raddau y mae awdurdodau cyhoeddus wedi addasu eu fframweithiau rheoli a fframweithiau corfforaethol i sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei ystyried yn ddigonol wrth wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau
- canfod sut y mae ystyriaethau bioamrywiaeth yn cael eu cyfleu o fewn sefydliadau e.e. i aelodau, arweinwyr, pleidleiswyr a dinasyddion ar lefel leol

- ymchwilio i ba raddau y mae camau gweithredu ar gyfer bioamrywiaeth wedi'u hymgorffori ar draws swyddogaethau'r sefydliad
- ymchwilio i'r galluogwyr a'r rhwystrau i weithredu'r ddyletswydd
- ymchwilio i a yw ffyrdd newydd o weithio wedi'u datblygu i gydymffurfio â'r ddyletswydd
- nodi beth yw'r camau allweddol y gall awdurdodau cyhoeddus eu cymryd i wella cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd a phrif ffrydio camau gweithredu ar fioamrywiaeth
- argymell pa ganllawiau, cymorth, hyfforddiant neu gamau gweithredu pellach eraill sydd eu hangen i alluogi hyn
- darparu enghreifftiau o arfer gorau ac astudiaethau achos sy'n dangos sut olwg sydd ar lwyddiant o ran prif ffrydio camau gweithredu ar fioamrywiaeth.

1.4 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau'r adolygiad desg a'r gwaith maes gydag awdurdodau cyhoeddus sy'n dod o dan y ddyletswydd.

1.5 Cyflwynir yr adroddiad hwn mewn saith pennod, fel a ganlyn:

- pennod un: y cyflwyniad hwn i'r adroddiad
- pennod dau: amlinelliad o fethodoleg yr astudiaeth
- pennod tri: y cefndir a throsolwg o'r ddyletswydd
- pennod pedwar: canfyddiadau'r gwerthusiad o ran cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd
- pennod pump: y galluogwyr a'r rhwystrau i weithredu'r ddyletswydd
- pennod chwech: canfyddiadau'r astudiaeth o ran y gwahaniaeth a wneir i awdurdodau cyhoeddus a gwella bioamrywiaeth
- pennod saith: ein casgliadau yn seiliedig ar ganfyddiadau'r astudiaeth ac argymhellion i Lywodraeth Cymru eu hystyried.

## 2. Methodoleg

2.1 Mae'r bennod hon yn disgrifio'r dull a ddefnyddiwyd ar gyfer cynnal y gwerthusiad, gan gynnwys nifer a phroffil yr awdurdodau cyhoeddus a gymerodd ran mewn amrywiol elfennau o'r ymchwil. Mae'r bennod hon hefyd yn ystyried rhai o'r materion methodolegol allweddol sy'n wynebu'r tîm gwerthuso.

**Dull**

2.2 Cynhaliwyd yr astudiaeth rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2021. Roedd yn cynnwys yr elfennau canlynol o waith:

- cam cychwynnol, a oedd yn cynnwys cyfarfod rhithiol cychwynnol gydag un o swyddogion Llywodraeth Cymru a pharatoi adroddiad cychwynnol a oedd yn amlinellu dull methodolegol wedi'i fireinio a chynllun prosiect
- paratoi offerynnau ymchwil, gan gynnwys arolwg dwyieithog ar-lein (gweler Atodiad A), canllaw trafod ar gyfer cyfweld â chynrychiolwyr awdurdodau cyhoeddus (gweler Atodiad B) a thempled ar gyfer dadansoddi cynlluniau ac adroddiadau adran 6 a baratowyd gan awdurdodau cyhoeddus
- ymchwil desg, a oedd yn cynnwys adolygiad o ddogfennau polisi a dogfennaeth berthnasol Llywodraeth Cymru, fel canllawiau, yn ymwneud â'r ddyletswydd
- derbyn cronfa ddata gyda data cyswllt ar gyfer 125 o awdurdodau cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru. Ar gyfer sefydliadau lle nad oedd data cyswllt ar gael, gwnaed ymdrechion i ddod o hyd i gyfeiriad e-bost cyswllt priodol
- dosbarthu'r arolwg ar-lein i bob awdurdod cyhoeddus sydd ar gronfa ddata Llywodraeth Cymru a derbyn cyfanswm o 52 o ymatebion i'r arolwg. Cyflwynwyd tri ymateb yn Gymraeg a'r 49 arall yn Saesneg

- darllen dogfennau (boed yn gynllun a/neu adroddiad, wedi'i gyhoeddi neu heb ei gyhoeddi) ar gyfer cyfanswm o 58 o awdurdodau. Cafwyd gafael ar y dogfennau hyn drwy gymysgedd o ddulliau gan gynnwys mynediad at gynlluniau/adroddiadau a gyhoeddwyd ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru[1] (34 o awdurdodau cyhoeddus), ymatebion a gyflwynwyd i'r arolwg[2] neu drwy chwilio gwefannau awdurdodau cyhoeddus. Dadansoddwyd y cynlluniau/adroddiadau yn nhermau eu hansawdd, pa mor gynhwysfawr oeddent ac i ba raddau yr oeddent yn cadw at y canllawiau ac yn cyfateb i amcanion NRAP. Mabwysiadwyd system statws COG [3] i wneud asesiad gwybodus yn erbyn y gofynion yn y canllawiau
- cyfweld â 31 o gynrychiolwyr o gyfanswm o 29 awdurdod cyhoeddus. Ecolegwyr, swyddogion bioamrywiaeth, swyddogion amgylcheddol neu swyddogion cydymffurfio â pholisïau oedd y cynrychiolwyr hyn yn bennaf
- derbyn datganiad neu wybodaeth ysgrifenedig drwy e-bost gan dri awdurdod (nad oeddent wedi cyfrannu mewn unrhyw ffordd arall at yr adolygiad)
- cyfweld â chynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ac Un Llais Cymru
- hwyluso tair trafodaeth mewn grwpiau ffocws gyda'r rhai sy'n mynychu'r rhwydweithiau canlynol:
    - Rhwydwaith Partneriaethau Natur Lleol (LNP) Cymru gyfan[4]
    - Rhwydwaith Cydlynwyr Datblygu Cynaliadwy Cymru a Mwy (CDCC+)

[1] Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru - Adrodd ar Ddyletswydd Bioamrywiaeth (biodiversitywales.org.uk)

[2] Roedd modd i awdurdodau cyhoeddus uwchlwytho eu cynllun/adroddiad i'r arolwg neu rannu dolen i gynllun/adroddiad cyhoeddedig

[3] System goleuadau traffig Coch/Oren/Gwyrdd i ddadansoddi ansawdd y dogfennau prosiect sydd ar gael

[4] Partneriaethau Natur Lleol Cymru - Hafan (lnp.cymru)

    - un Bartneriaeth Natur Lleol
- cyfuno canfyddiadau'r gwaith maes a'r adolygiad desg a drafftio'r adroddiad hwn.

**Ystyriaethau methodolegol**

2.3 Mae angen ystyried y materion a ganlyn mewn perthynas â'r fethodoleg a fabwysiadwyd ar gyfer yr astudiaeth hon:

- cynhaliwyd pob cyfweliad dros y ffôn neu o bell drwy Microsoft Teams i leihau cyswllt wyneb yn wyneb yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19) ac i gadw at ganllawiau Llywodraeth Cymru ar gynnal ymchwil ar yr adeg hon. Gweithiodd y dull hwn yn dda gan gynnig mwy o hyblygrwydd i gyfranogwyr gael trafodaeth ag aelod o'r tîm ymchwil
- ni chynhaliwyd cymaint o gyfweliadau ag a fwriadwyd (sef 40) er gwaethaf ymdrechion i gysylltu â phob awdurdod cyhoeddus drwy e-bost (a thros y ffôn yn y rhan fwyaf o achosion) ar sawl achlysur
- ein bwriad oedd cynnal cyfweliadau â Phrif Swyddogion Gweithredol a/neu Gadeiryddion awdurdodau cyhoeddus ond fel y bu, dim ond un cyfweliad o'r fath a gynhaliwyd. Ym mhob achos arall, dirprwywyd ein ceisiadau am gyfweliad (a chwblhau'r arolwg) i swyddogion priodol. Mae hwn yn ganfyddiad pwysig ynddo'i hun ac mae'n rhoi dealltwriaeth o'r rhai sydd fwyaf gwybodus am y ddyletswydd ar draws awdurdodau cyhoeddus. Yn bennaf, y rhai a gymerodd ran yn y cyfweliadau oedd:
    - swyddogion llywodraethu a chydymffurfiaeth
    - rheolwyr gwasanaethau corfforaethol
    - swyddogion polisi
    - swyddogion amgylcheddol, cadwraeth a chynaliadwyedd
    - swyddogion bioamrywiaeth ac ecolegwyr
    - rheolwyr ystadau ac eiddo

- yn ystod yr astudiaeth daeth yn amlwg nad oedd dau awdurdod cyhoeddus (Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent) wedi'u cynnwys ar gronfa ddata awdurdodau cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, cysylltwyd â hwy yn ddiweddarach fel rhan o'r gwerthusiad, a chyfrannodd un at yr astudiaeth
- mae dau awdurdod cyhoeddus a restrir ar gronfa ddata Llywodraeth Cymru wedi uno'n un awdurdod (Severn Trent Water a Hafren Dyfrdwy)
- roedd dau gofnod ar y gronfa ddata ar gyfer yr un awdurdod cyhoeddus (Comisiwn Ffiniau Cymru)
- pan gysylltwyd â hwy yn gofyn iddynt gyfrannu at y gwerthusiad, ymatebodd dau o'r awdurdodau cyhoeddus a oedd ar gronfa ddata Llywodraeth Cymru drwy ddweud nad oeddent yn ystyried eu hunain yn awdurdod cyhoeddus. Y rhain oedd:
    - Carchar y Parc, Pen-y-bont ar Ogwr
    - Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Mae nifer o'r awdurdodau cyhoeddus a restrir yn y gronfa ddata a rennir gyda'r tîm ymchwil wedi'u heithrio rhag cyhoeddi cynllun o dan y ddyletswydd oherwydd nad ydynt yn awdurdod annibynnol neu'n Weinyddiaeth y Goron. Awgryma ein dadansoddiad o'r gronfa ddata a ddarparwyd y gallai 16 o gofnodion gael eu dosbarthu'n adrannau'r llywodraeth yn hytrach nag awdurdod cyhoeddus, er nad yw bob amser yn syml diffinio sefydliad fel y naill neu'r llall. Mewn tri achos, a nodir isod, cyfrannodd awdurdodau cyhoeddus mewn rhyw ffordd at yr astudiaeth ac ystyriwyd eu hadborth:
    - CADW
    - Comisiwn Cenedlaethol Seilwaith Cymru
    - Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru *(ymatebodd i'r arolwg)*

- Comisiwn y Gyfraith
- Croeso Cymru
- Panel Dyfarnu Cymru
- Pwyllgor Cynghori ar Ddraenio Mewnol Cymru
- Swyddfa Cymru
- Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru
- Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru
- Y Gofrestrfa Tir
- Y Swyddfa Eiddo Deallusol *(ymatebodd i'r arolwg)*
- Y Tribiwnlys Tir Amaethyddol
- Y Weinyddiaeth Amddiffyn
- Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Yr Arolygiaeth Gynllunio *(darparwyd gohebiaeth)*
- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

- o ystyried hyn oll, canfuwyd bod 110 o awdurdodau cyhoeddus o fewn cwmpas yr adolygiad[5]. Nifer yr awdurdodau cyhoeddus a gyfrannodd mewn rhyw ffordd at yr astudiaeth oedd 72, sy'n cynrychioli tua dwy ran o dair o'r rhai sydd o fewn cwmpas y ddyletswydd. Ni chyfrannodd traean o'r holl awdurdodau cyhoeddus, sef 38, at yr astudiaeth mewn unrhyw ffordd.

[5] Gan gynnwys y tri awdurdod a ddosbarthwyd fel adrannau'r llywodraeth uchod ac a ymatebodd mewn rhyw ffordd

## 3. Cyd-destun polisi a throsolwg o'r ddyletswydd

3.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu adolygiad o ddogfennau polisi allweddol Llywodraeth Cymru sy'n berthnasol i Ddeddf yr Amgylchedd a'r ddyletswydd. Mae hefyd yn rhoi trosolwg o'r canllawiau sydd ar waith yn ymwneud â'r ddyletswydd.

**Cyflwyniad**

3.2 Amlinellwyd ymateb Llywodraeth Cymru i ddirywiad mewn bioamrywiaeth a cholli rhywogaethau a chynefinoedd mewn fframwaith deddfwriaethol, gan ddechrau gyda'r Ddeddf drosfwaol, sef **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (y Ddeddf Llesiant) 2015**. Roedd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r sector cyhoeddus 'wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.' Yn y Ddeddf mae saith nod a phum ffordd o weithio y mae'n rhaid i bob awdurdod cyhoeddus geisio eu dilyn. Rhaid i awdurdodau cyhoeddus hefyd gymryd rhan yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer eu hardal hwy, gyda phob un ohonynt yn gyfrifol am gynnal asesiad o lesiant yn eu hardal a pharatoi a chyhoeddi Cynllun Llesiant.

**Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**

3.3 Cyflwynwyd **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** i reoli adnoddau naturiol yn well mewn ffordd gynaliadwy ac i ddiogelu a datblygu cydnerthedd systemau naturiol.

3.4 Roedd Rhan 1 o'r Ddeddf yn cynnwys y fframwaith ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR) sy'n cynnwys:

- yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR), a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn 2016
- y Polisi Adnoddau Naturiol, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2017
- a Datganiadau Ardal, a gyhoeddwyd gan CNC yn 2020.

3.5 Cyflwynodd Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau ehangach ar awdurdodau lleol, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt **geisio cynnal ac ehangu bioamrywiaeth cyn belled â bod hynny'n gyson â chyflawni eu swyddogaethau'n briodol gan hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau drwy wneud hynny**. Er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd, rhaid i awdurdodau cyhoeddus ymgorffori'r angen i ystyried bioamrywiaeth ac ecosystemau yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd ac yn eu polisïau, eu cynlluniau, eu rhaglenni a'u prosiectau.

3.6 Mae dyletswydd adran 6 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus, nad yw'n Weinidog y Goron nac yn un o adrannau'r llywodraeth, baratoi a chyhoeddi cynllun, ac i bob awdurdod cyhoeddus adrodd pob tair blynedd i ddangos yr hyn y mae wedi'i wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd. Roedd yr adroddiadau cyntaf gan bob awdurdod cyhoeddus i fod i gael eu cyhoeddi yn 2019.

**Canllawiau ar adrodd**

3.7 Yn 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau i awdurdodau cyhoeddus[6] i'w cynorthwyo i fodloni'r gofyniad i adrodd mewn perthynas â'r ddyletswydd. Mae'r canllawiau'n nodi na ddylai'r ddyletswydd adrodd fod yn feichus ac y dylai fod yn gymesur i faint a natur y sefydliad.

3.8 Nododd y canllawiau fod hyblygrwydd i awdurdodau cyhoeddus o ran ffurf eu hadroddiad adran 6, e.e., gellid ei ymgorffori mewn adroddiad blynyddol neu gallai fod yn ddogfen ar wahân:

> 'Byddai'n arfer da iddynt adrodd fel rhan o'u systemau a/neu brosesau adrodd arferol, fel eu hadroddiad blynyddol, gan ddangos sut mae'r broses o ystyried bioamrywiaeth yn cael ei hymgorffori yn yr awdurdod cyhoeddus.'[7]

3.9 Awgrymodd y canllawiau y gallai awdurdodau cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol adrodd yn

[6] Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru - Adrodd ar Ddyletswydd Bioamrywiaeth (biodiversitywales.org.uk)

[7] Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 Canllawiau ar gyfer Adran 6 - Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau, Canllawiau ar Adrodd 4

erbyn y ddyletswydd fel rhan o'u hadroddiad yn erbyn amcanion llesiant y Ddeddf honno ac y gallai'r rhai yr oedd eu cylch gwaith statudol yn canolbwyntio ar fioamrywiaeth e.e. CNC, ymgorffori eu hadroddiad ar y ddyletswydd mewn adroddiadau blynyddol.

3.10 Roedd y canllawiau'n darparu templed adrodd i awdurdodau ei fabwysiadu, pe dymunent, a oedd yn amlinellu'r wybodaeth sylfaenol y byddai'n fuddiol ei chasglu ac adrodd arni. Y prif themâu a nodwyd yn y templed oedd:

- cyflwyniad i'r awdurdod cyhoeddus, ei swyddogaethau a'i drefniadau llywodraethu mewn perthynas â bioamrywiaeth
- uchafbwyntiau, canlyniadau allweddol, a materion
- y galluogwyr a'r rhwystrau allweddol i weithredu'r ddyletswydd
- adroddiad ar weithredu, gan fabwysiadu pob un o bum amcan NRAP
- sut y maent yn cyflawni chwe amcan y Cynllun Gweithredu Adfer Natur (NRAP) o ran:
    - ymgorffori bioamrywiaeth yn y broses benderfynu
    - diogelu rhywogaethau
    - gwella cynefinoedd
    - nodi'r prif bwysau
    - casglu tystiolaeth gadarn a
    - sefydlu fframwaith ar gyfer llywodraethu.

3.11 Mae'r ddyletswydd yn annog ymgorffori bioamrywiaeth ar y lefel gorfforaethol, gyda'r Prif Weithredwyr a Chadeiryddion awdurdodau cyhoeddus yn gyfrifol am hynny yn y pen draw.

3.12 Mae Adran 6 yn rhestru'r ystod eang o awdurdodau cyhoeddus y mae'r ddyletswydd yn berthnasol iddynt. Maent yn cynnwys Gweinidogion Cymru, cyrff cyhoeddus, deiliaid swyddi cyhoeddus ac ymgymerwyr statudol. Maent hefyd yn cynnwys ystod o sefydliadau fel awdurdodau

lleol, byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau iechyd cenedlaethol, awdurdodau parciau cenedlaethol a chynghorau tref a chymuned lleol. Mae'r rhestr yn helaeth ac yn amrywiol ac mae cryn amrywiad yn y graddau y gall awdurdodau cyhoeddus gymryd camau sy'n adlewyrchu'r ddyletswydd. Er mwyn cynorthwyo'r broses hon, gall sefydliadau gategoreiddio eu hunain i un o dri grŵp, a nodir yn Ffigur 3.1, er mwyn sicrhau bod camau gweithredu ar gyfer bioamrywiaeth yn gymesur â'r math o sefydliad a'i faint.

**Ffigur 3.1: Mathau o awdurdodau cyhoeddus a chamau gweithredu posibl i'w cyflawni mewn perthynas â'u swyddogaeth**

**Grŵp 1**

Awdurdodau cyhoeddus sy'n berchen ar adeilad swyddfa neu'n ei feddiannu yn unig ac nad yw eu swyddogaethau'n gysylltiedig yn uniongyrchol â bioamrywiaeth a/neu reoli tir. Camau sy'n gysylltiedig â rheoli adeiladau, caffael, cynaliadwyedd, codi ymwybyddiaeth, hyfforddiant, neu mewn partneriaeth â sefydliadau eraill

**Grŵp 2**

Awdurdodau cyhoeddus sy'n berchen, yn meddiannu neu'n rheoli tir, eu hadeiladau a'u tir eu hunain, y mae eu swyddogaethau'n gysylltiedig â bioamrywiaeth a/neu reoli tir, neu sy'n gallu dylanwadu ar y rhai sy'n berchen ar dir neu'n rheoli tir. Fel Grŵp 1 uchod A rheoli tir, rhaeadru meini prawf cyllido, darparu addysg a hyfforddiant.

**Grŵp 3**

Awdurdodau cyhoeddus sy'n berchen ar dir neu sy'n rheol tir y tu hwnt i'w tir eu hunain, waeth a yw eu swyddogaethau gysylltiedig â bioamrywiaeth a/neu reoli tir ai peidio. Fel Grwpiau 1 a 2 uchod A rheoli tir er mwyn cynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.

3.13 I rai, efallai nad oes llawer o ffyrdd y mae eu gweithgareddau o ddydd i ddydd yn effeithio ar fioamrywiaeth - ac o ganlyniad mae hynny'n golygu eu bod yn ei chael hi'n fwy heriol nodi camau gweithredu a

newidiadau y gallant adrodd arnynt neu nad ydynt yn gweld y rheidrwydd i wneud hynny er ei fod yn ofyniad cyfreithiol. I eraill, yn enwedig awdurdodau lleol, mae'r ystod o wahanol weithgareddau y gellid adrodd arnynt yn helaeth ac yn gymhleth. Mae bioamrywiaeth ym mhob ardal ddaearyddol hefyd yn destun dylanwadau ehangach, yn aml y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol yr awdurdod hwnnw, e.e. newid yn yr hinsawdd neu arferion amaethyddol. Er y gallai'r cymhlethdod hwn rwystro rhai awdurdodau lleol rhag cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol i adrodd, gallai ar y llaw arall ddarparu mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau sydd o fudd i fioamrywiaeth.

## 4. Cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd

**Canfyddiadau allweddol**

- Canfu'r gwerthusiad fod 62 o awdurdodau cyhoeddus wedi paratoi o leiaf un ddogfen (cynllun neu adroddiad) yn unol â gofynion y ddyletswydd. O blith y rhain, roedd 26 o awdurdodau cyhoeddus wedi paratoi cynllun yn ogystal ag adroddiad.
- Mae'r rhan fwyaf o'r cynlluniau/adroddiadau a adolygwyd yn ddogfennau ar wahân. Ychydig iawn o gynlluniau/adroddiadau sydd wedi'u hymgorffori mewn dogfennau corfforaethol er bod y canllawiau yn awgrymu y dylid gwneud hyn fel mater o arfer da.
- Mae'r awdurdodau cyhoeddus hynny a gymerodd ran yn yr adolygiad yn ymwybodol iawn o'r ddyletswydd ac yn ymwneud yn sylweddol â hi. Mae proffil y rhai sydd wedi cymryd rhan yn yr astudiaeth yn gogwyddo tuag at y rhai sydd wedi gwneud y cynnydd mwyaf.
- Mae'r broses o lunio a chymeradwyo cynlluniau ac adroddiadau wedi amrywio ar draws awdurdodau cyhoeddus, gydag un swyddog yn aml yn cymryd y cyfrifoldeb hwn.
- Canfuwyd bod y rhan fwyaf o'r cynlluniau a'r adroddiadau a ystyriwyd fel rhan o'r gwerthusiad hwn yn gynhwysfawr iawn neu'n weddol gynhwysfawr a chanfuwyd bod rhyw dri chwarter yr adroddiadau yn dilyn y canllawiau a ddarparwyd.
- Mae'r cynlluniau/adroddiadau cryf wedi eu pwyso a'u mesur yn dda, yn seiliedig ar dystiolaeth glir, yn hawdd eu darllen, wedi'u cynllunio'n dda, yn ddeniadol iawn i'r llygad, yn cyfeirio'n glir at amcanion NRAP ac yn cynnwys camau gweithredu a chyflawniadau penodol a mesuradwy.

- Mae'r cynlluniau/adroddiadau gwannach yn tueddu i fod yn fyrrach a llai o ôl meddwl arnynt, yn debycach i ddatganiad polisi na chynllun gweithredu, ac yn canolbwyntio'n ormodol ar gamau gweithredu amgylcheddol ehangach yn hytrach na chamau penodol yn ymwneud â bioamrywiaeth.

4.1 Mae'r bennod hon yn ystyried canfyddiadau'r gwaith maes mewn perthynas â faint o awdurdodau cyhoeddus sydd wedi cyhoeddi cynlluniau ac adroddiadau a'r cynnydd cyffredinol a wnaed o ran cydymffurfio â'r ddyletswydd.

**Awdurdodau cyhoeddus sydd wedi cyhoeddi cynlluniau ac adroddiadau**

4.2 Canfu'r astudiaeth fod cyfanswm o 62 o awdurdodau cyhoeddus wedi paratoi cynllun neu adroddiad, neu'r ddau, gan awgrymu bod ychydig dros hanner yr holl awdurdodau cyhoeddus yn cydymffurfio â'r ddyletswydd. Maent yn cynnwys tri chynllun/adroddiad nad oeddent wedi'u cymeradwyo adeg cynnal y gwaith maes yn ogystal ag un cynllun/adroddiad a oedd wedi'i gymeradwyo ond heb ei gyhoeddi.

4.3 Mewn pedwar achos nid oedd modd i ni weld y cynllun/adroddiad. Mewn tri o'r achosion hyn, ni rannodd yr awdurdod y dogfennau gyda'r tîm ymchwil; ac yn y pedwerydd, dim ond trosolwg a oedd a gael drwy'r ddolen a ddarparwyd yn hytrach na'r adroddiad llawn. O'r herwydd, mae ein dadansoddiad o ddogfennau yn seiliedig ar gyfanswm o 58 o adroddiadau/cynlluniau awdurdodau cyhoeddus.

4.4 Fel y dangosir yn Nhabl 4.1, roedd 45 o awdurdodau cyhoeddus wedi llunio cynllun ac roedd 39 wedi llunio adroddiad. Mae mwyafrif helaeth y dogfennau a baratowyd gan awdurdodau cyhoeddus ac a adolygwyd fel rhan o'r astudiaeth hon yn rhai ar wahân (50 o'r 58). Roedd cyfanswm o 19 o awdurdodau wedi paratoi cynllun yn unig ac roedd 16 o awdurdodau wedi paratoi adroddiad yn unig. Roedd tua hanner yr awdurdodau, sef 26, wedi paratoi cynllun yn ogystal ag adroddiad (mewn wyth achos roedd hon yn ddogfen gyfun).

**Tabl 4.1: Cynlluniau ac adroddiadau adran 6 a baratowyd gan awdurdodau cyhoeddus**

| Math o ddogfen | Nifer |
|---|---|
| Cynllun ar wahân yn unig | 15 |
| Cynllun ar wahân ac adroddiad ar wahân | 14 |
| Adroddiad ar wahân yn unig | 13[8] |
| Cynllun ac adroddiad cyfun ar wahân | 8 |
| Cynllun wedi'i ymgorffori yn unig | 4 |
| Cynllun ac adroddiad wedi'u hymgorffori | 4 |
| Cyfanswm | 58 |

4.5 Mae cynlluniau neu adroddiadau sydd wedi'u hymgorffori mewn dogfennau eraill yn tueddu i gael eu cynnwys fel rhan o'r adroddiad llawn mewn cynlluniau corfforaethol, strategaethau corfforaethol, cynlluniau rheoli, adroddiadau blynyddol ac adroddiadau amgylcheddol.

4.6 Mae'n hysbys bod 38 o awdurdodau cyhoeddus wedi cyhoeddi cynllun neu adroddiad(au) adran 6, neu'r ddau, gan fod y tîm ymchwil wedi gallu dod o hyd i ddogfen yn y parth cyhoeddus drwy wefan yr awdurdod neu wefan y Bartneriaeth Bioamrywiaeth.

4.7 Yn Nhabl 4.2 nodir ein dadansoddiad o ba mor gynhwysfawr yw'r cynlluniau a'r adroddiadau. Mae'r tîm ymchwil o'r farn bod y rhan fwyaf o'r cynlluniau a'r adroddiadau a gynhyrchwyd gan awdurdodau cyhoeddus yn gynhwysfawr iawn neu'n weddol gynhwysfawr. Ystyriwyd nad oedd tua chwarter y cynlluniau a thua 15 y cant o'r adroddiadau a aseswyd yn gynhwysfawr.

**Tabl 4.2: Dadansoddiad o gynlluniau ac adroddiadau awdurdodau cyhoeddus**

| | Nifer y cynlluniau | Nifer yr adroddiadau |
|---|---|---|
| Cynhwysfawr iawn | 29 | 25 |
| Eithaf cynhwysfawr | 5 | 8 |


[8] Roedd gan un o'r awdurdodau hyn gynllun wedi'i ymgorffori hefyd ond ni welwyd hwn fel rhan o'r ymchwil.

| | | |
|---|---|---|
| Ddim yn arbennig o gynhwysfawr | 11 | 6 |
| Cyfanswm | 45 | 39 |

**I ba raddau y mae awdurdodau cyhoeddus yn ymwneud â'r ddyletswydd**

4.8 Roedd mwyafrif yr awdurdodau cyhoeddus a arolygwyd (47 o ymatebwyr o blith 52) yn gyfarwydd iawn neu'n weddol gyfarwydd â'r ddyletswydd. Fel y dangosir yn Ffigur 4.1, dim ond ambell ymatebydd (pump) nad oeddent yn gyfarwydd â'r ddyletswydd, gan awgrymu bod proffil y rhai a gwblhaodd yr arolwg ar-lein yn tueddu i gynnwys y rhai sy'n ymwneud yn weithredol â'r maes gwaith hwn.

**Ffigur 4.1: I ba raddau yr oedd yr awdurdodau cyhoeddus a ymatebodd i'r arolwg yn gyfarwydd â'r ddyletswydd**





Ffynhonnell: Arolwg OB3 (52 o ymatebwyr)

4.9 Roedd mwyafrif y rhai a gyfwelwyd wedi ymwneud yn helaeth â'r ddyletswydd ac roeddent yn wybodus iawn amdani, gan eu bod yn aml wedi ymwneud â'r ddyletswydd ers y cychwyn cyntaf. Roedd y mwyafrif wedi chwarae rhan weithredol yn y gwaith o ddrafftio'r cynllun neu'r adroddiad ac yn ystyried eu hunain yn 'arweinydd' y gwaith hwn yn eu sefydliad. Roedd lleiafrif o'r rhai a gyfwelwyd yn llai gwybodus am y ddyletswydd ac roedd y rhain yn tueddu i fod yn unigolion o awdurdodau nad oedd ganddynt gynllun nac adroddiad. Roedd y rhain hefyd yn

tueddu i fod o awdurdodau nad oedd ganddynt swyddog bioamrywiaeth neu swyddog ecoleg.

4.10 Roedd cyfran uchel o'r awdurdodau a arolygwyd (48 o ymatebwyr) hefyd wedi croesawu'r ddyletswydd i ryw raddau (35 o ymatebwyr) neu i raddau helaeth (13 o ymatebwyr), fel y dangosir yn Ffigur 4.2. Dim ond dau awdurdod a arolygwyd nad oeddent wedi croesawu'r ddyletswydd o gwbl.


**Ffigur 4.2: I ba raddau y mae awdurdodau cyhoeddus wedi croesawu'r ddyletswydd**




Ffynhonnell: Arolwg OB3 (52 o ymatebwyr)

4.11 Yn yr un modd, roedd mwyafrif llethol yr awdurdodau cyhoeddus a arolygwyd (48 o ymatebwyr) o'r farn eu bod wedi gwneud rhywfaint o gynnydd (39 o ymatebwyr) neu gynnydd sylweddol (naw ymatebydd) mewn perthynas â'r ddyletswydd.

**Ffigur 4.3: Y cynnydd a wnaed gan awdurdodau cyhoeddus mewn perthynas â'r ddyletswydd**




Ffynhonnell: Arolwg OB3 (52 o ymatebwyr)

4.12 Pan ofynnwyd iddynt faint o gynnydd a wnaed gan eu sefydliad mewn perthynas â'i ddyletswyddau o dan adran 6, y prif gyflawniadau a nodwyd gan awdurdodau cyhoeddus a gyfwelwyd oedd eu bod wedi paratoi cynlluniau a/neu adroddiadau ac felly wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd.

4.13 Awgrymodd adborth gan y rhai a gyfwelwyd, mewn pedwar achos, fod cynlluniau a/neu adroddiadau wedi'u paratoi, yn aml yn 2019, ond nad oeddent wedi'u cymeradwyo i'w cyhoeddi gan y bwrdd neu'r pwyllgor priodol. Nodwyd y pandemig COVID-19 fel y prif reswm pam na chyflwynwyd y cynlluniau ac/neu'r adroddiadau hyn i'w cymeradwyo'n ffurfiol. Nid oedd yn anarferol felly clywed bod y cynlluniau/adroddiadau hyn bellach yn cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo'n ffurfiol e.e., yn ystod un drafodaeth daeth i'r amlwg bod adroddiad un awdurdod 'ond wedi cael ei gymeradwyo ddoe'.

4.14 Roedd meysydd eraill o gynnydd mewn perthynas â'r ddyletswydd a nodwyd gan awdurdodau cyhoeddus a gyfwelwyd yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o'r ddyletswydd ar draws y sefydliad, mapio gweithgareddau presennol sy'n ymwneud â bioamrywiaeth a nodi cyfleoedd ar gyfer gwaith pellach yn y maes hwn. Nododd sawl awdurdod cyhoeddus hefyd fod ffocws y ddyletswydd ar gynllunio ac adrodd yn ei alluogi i adrodd yn fwy ffurfiol ar gamau bioamrywiaeth sy'n cael eu cyflawni ar draws y sefydliad.

4.15 Roedd nifer fach o awdurdodau cyhoeddus yn ei chael hi'n anoddach nodi'r cynnydd a wnaed gan eu sefydliad mewn perthynas â'r ddyletswydd gan eu bod yn teimlo eu bod yn 'gwneud llawer o waith beth bynnag' yn y maes hwn. Yn yr achosion hyn, credwyd bod cynnydd yn ymwneud â dangos tystiolaeth yn well ac adrodd yn well ar y camau a oedd eisoes yn cael eu cymryd gan y sefydliad.

4.16 Roedd eraill a oedd o'r farn bod eu hawdurdod ond wedi llwyddo i wneud rhywfaint o gynnydd yn credu bod y gwaith yn cael ei ysgogi gan unigolion allweddol, yn hytrach na'r sefydliad cyfan. Dim ond mewn un awdurdod cyhoeddus y cymerodd y swyddog gweithredu arweiniol gyfrifoldeb dros y ddyletswydd ei hun a chyfrannu at y gwerthusiad.


4.17 Roedd awdurdodau cyhoeddus eraill wedi gwneud llai o gynnydd, yn bennaf oherwydd eu bod yn ansicr a oedd eu sefydliad yn dod o fewn cwmpas y ddeddfwriaeth. Mewn rhai o'r achosion hyn, y cyngor a gafwyd gan Lywodraeth Cymru oedd mai mater i'r awdurdod cyhoeddus oedd penderfynu a oeddent o fewn cwmpas y ddyletswydd. Roedd dau awdurdod cyhoeddus a gyfrannodd at y cyfweliadau yn ymwybodol o'r ddyletswydd ond nid oeddent yn ymwybodol o'r angen i baratoi adroddiad cyn bod rhywun yn cysylltu â nhw fel rhan o'r gwerthusiad.

**Y broses ar gyfer llunio a chymeradwyo cynlluniau/adroddiadau**

4.18 Mae'r broses o lunio a chymeradwyo cynlluniau ac adroddiadau wedi amrywio ar draws awdurdodau cyhoeddus. Mewn llawer o'r awdurdodau cyhoeddus a gafodd eu cyfweld, mae un swyddog wedi cymryd cyfrifoldeb am y broses, ond mewn achosion eraill mae'r broses wedi ei hymgorffori'n fwy ac wedi cynnwys cyfraniad llawer ehangach o bob rhan o'r sefydliad. Yn groes i'r darlun eithaf cymysg hwn ynghylch i ba raddau y mae gweithredu'r ddyletswydd wedi'i ymgorffori ar draws yr awdurdod a gasglwyd drwy'r cyfweliadau, roedd awdurdodau cyhoeddus a arolygwyd o'r farn bod ystyriaethau bioamrywiaeth wedi'u hymgorffori'n dda iawn neu'n eithaf da ar lefel uwch ar draws eu sefydliad. Dengys Ffigur 4.4. fod un rhan o bump o'r awdurdodau cyhoeddus a arolygwyd (11 o ymatebwyr) o'r farn bod ystyriaethau bioamrywiaeth wedi'u

hymgorffori'n dda iawn ac roedd tri chwarter arall (37 o ymatebwyr) o'r farn bod ystyriaethau bioamrywiaeth wedi'u hymgorffori'n weddol dda ar lefel uwch. Ychydig iawn (pedwar ymatebydd) oedd yn credu nad oedd hyn yn wir.

**Ffigur 4.4: I ba raddau y mae ystyriaethau bioamrywiaeth wedi'u hymgorffori ar lefel uwch ar draws awdurdodau cyhoeddus**




Ffynhonnell: Arolwg OB3 (52 o ymatebwyr)

4.19 Mae wedi bod yn gyffredin i un swyddog â chyfrifoldeb dros faterion bioamrywiaeth neu seilwaith gwyrdd fod wedi drafftio cynllun ac adroddiad adran 6. Roedd hyn yn amlwg o'r adborth a gafwyd gan aelodau o'r grŵp CDCC+, gan mai dim ond dau o'r rhai a oedd yn bresennol yn y gweithdy a oedd wedi chwarae rhan weithredol yn y gwaith o ddatblygu'r cynllun neu'r adroddiad yn eu sefydliad. Roedd mwyafrif y swyddogion hyn wedi clywed am y ddyletswydd ond nid oedd pob un yn gwybod a oedd ei awdurdod wedi cydymffurfio ai peidio. Mewn sawl achos ymysg awdurdodau cyhoeddus Grŵp 3, byddai gwaith drafftio cynllun neu adroddiad wedi cael ei lywio gan gyswllt y swyddog ag adrannau eraill yn ogystal â gweithdai wedi'u hwyluso ar draws y sefydliad, ond i raddau llai.

4.20 Mewn nifer fach o awdurdodau cyhoeddus mae'r broses ddrafftio wedi ei hymgorffori i raddau llai, gyda chynllun a/neu adroddiad yn cael ei gyflwyno i bwyllgor ar lefel weithredol i'w gymeradwyo heb unrhyw

ymgynghori nac ymgysylltu ehangach ar draws yr awdurdod. Soniodd llawer o awdurdodau cyhoeddus, yn enwedig y rhai o awdurdodau lleol, eu bod wedi penodi aelod etholedig i hyrwyddo'r ddyletswydd a'r cynllun cyflawni. Roedd rhai awdurdodau lleol yn ei chael hi'n anodd penderfynu pa aelod o'r Cyngor ddylai gymryd y cyfrifoldeb hwn, o gofio bod y ddyletswydd yn cwmpasu gwahanol bortffolios cynghorwyr. Serch hynny, mae awdurdodau cyhoeddus o'r farn bod y dull hwn yn gweithio'n dda oherwydd 'mae'n golygu bod gennym rywun ar y corff llywodraethu i'w hyrwyddo'.

Mae'r ddyletswydd yn cael ei hystyried fwyfwy fel cyfrifoldeb y sefydliad cyfan ar draws **Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent**. Cysylltodd tîm yr Amgylchedd Naturiol, sydd wedi cymryd cyfrifoldeb dros baratoi'r cynllun a'r adroddiad, â phob adran i gasglu syniadau a chamau gweithredu y gellid eu cynnwys yn y cynllun ac y gallai adrannau unigol gymryd cyfrifoldeb drostynt. Penodwyd Hyrwyddwr Bioamrywiaeth ar lefel Cynghorydd hefyd. Mae'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol wedi cael gwybod am yr angen i ystyried y ddyletswydd o fewn eu prosesau cynllunio busnes ac mae'r cynllun a'r adroddiad dyletswydd adran 6 yn cael eu hystyried gan aelodau etholedig ym mhwyllgor craffu'r Cyngor.

Mewn awdurdod cyhoeddus arall, paratowyd y cynllun gan swyddog arweiniol a thrafododd ei gynnwys gyda'r tîm rheoli a thimau eraill ar draws y sefydliad. Gwnaed newidiadau iddo yn seiliedig ar adborth. Yna rhannwyd y cynllun gyda'r holl staff i gael sylwadau pellach a arweiniodd at rai newidiadau i'r camau a nodwyd.

4.21 O ran amser, mae'r broses o gynhyrchu a chymeradwyo cynlluniau ac adroddiadau wedi amrywio o ddau fis i oddeutu dwy flynedd. Mae dulliau sydd wedi'u hymgorffori i raddau llai wedi tueddu i olygu bod y cynlluniau a'r adroddiadau'n cael eu cwblhau o fewn amserlen fyrrach. Mewn sawl

achos, diffygiodd y broses ar ôl y gwaith datblygu a drafftio cychwynnol, gan na chyflwynwyd cynlluniau ac adroddiadau ar gyfer gwelliant ffurfiol neu roedd awdurdodau cyhoeddus yn ansicr sut y byddent yn gallu monitro'r cynnydd a wnaed.

4.22 Roedd sawl awdurdod cyhoeddus a gyfwelwyd o'r farn ei bod yn werthfawr ariannu swyddog pwrpasol a chanddo wybodaeth ac arbenigedd mewn ecoleg a bioamrywiaeth i fwrw ymlaen â'r gwaith cynllunio ac adrodd. Roedd deiliaid y swyddi hyn yn aml yn cael eu hariannu drwy gronfeydd grant allanol (gan gynnwys drwy grant y Gronfa Natur). Mewn un achos, fe wnaeth awdurdod cyhoeddus gontractio'r gwaith o ddatblygu cynllun ac adroddiad bioamrywiaeth i ymgynghorydd profiadol a phenododd un arall (lleoliad addysg uwch) fyfyriwr i gefnogi'r gwaith.

4.23 Dywedodd sawl awdurdod cyhoeddus ei fod wedi sefydlu neu ddefnyddio grŵp llywio neu gynghori presennol i helpu i oruchwylio'r gwaith o ddrafftio a gweithredu'r cynllun. Roedd y rhain yn cynnwys gweithgorau mewnol fel Grwpiau Gweithredu ar Gynaliadwyedd neu'r Amgylchedd, Grwpiau Bioamrywiaeth, Gweithgorau Argyfwng Hinsawdd a Gweithgorau ar y Dyfodol.

4.24 Roedd hefyd yn gyffredin i gynrychiolwyr a gyfwelwyd nodi bod eu cynlluniau a'u hadroddiadau wedi'u cymeradwyo drwy eu sianelau cymeradwyo ffurfiol arferol, gan gynnwys cael cymeradwyaeth ar lefel adrannol, cymeradwyaeth uwch reolwyr/arweinyddiaeth weithredol yn ogystal ag aelod etholedig neu fwrdd anweithredol.

**Cynnwys ac ansawdd cynlluniau ac adroddiadau**

4.25 O ran arfer da mewn perthynas â chynnwys a fformat cynlluniau ac adroddiadau, mae'n werth nodi bod:

- rhai cynlluniau/adroddiadau yn llawer haws eu darllen nag eraill. Mae'r rhain yn tueddu i fod yn gynlluniau/adroddiadau cyhoeddedig sydd wedi'u cynllunio'n dda, sy'n ddeniadol iawn i'r llygad ac yn cyfeirio'n glir at amcanion NRAP y mae eu camau gweithredu'n gysylltiedig â nhw. Er enghraifft:

Mae 'Gwneud Lle i Natur' gan **Iechyd Cyhoeddus Cymru** yn enghraifft wych o ddogfen gymharol hawdd ei darllen sy'n mynegi'n glir yr hyn y mae'r awdurdod yn bwriadu ei gyflawni a'r hyn y mae wedi'i gyflawni yn erbyn pob un o amcanion NRAP. Mae'r cynllun a'r adroddiad ill dau yn ddogfennau sy'n ddeniadol iawn i'r llygad ac yn cynnwys astudiaethau achos enghreifftiol sy'n cyfeirio at brosiectau fel cynllun 'y to gwyrdd'. Mae'r adroddiad yn cynnwys dolen i'r cynllun, ac i'r gwrthwyneb, gan ei gwneud yn hawdd cael mynediad at y naill ddogfen a'r llall.

- mae un awdurdod cyhoeddus wedi llunio dogfen gyfeirio sy'n amlinellu mewn ffordd ddefnyddiol sut y mae'r sefydliad yn bodloni gofynion y ddyletswydd:

Mae **Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro** wedi cyhoeddi dogfen gyfeirio fer yn amlinellu'r dull a ddefnyddir i ymgorffori'r ddyletswydd yn ei fframwaith cynllunio corfforaethol ac adrodd. Cyfeirir at y ddogfen gyfeirio hon yn ei adroddiad blynyddol ar yr amcanion llesiant ac mae'n darparu trosolwg o'r camau sy'n cael eu cymryd i gydymffurfio ag amcanion NRAP. Y bwriad yw bodloni gofynion adrodd a monitro'r ddyletswydd, o gofio bod cynlluniau ac adroddiadau corfforaethol presennol yn dangos sut mae'r awdurdod yn cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth, fel rhan o'i swyddogaeth graidd.

- mae cryn ôl meddwl ar rai cynlluniau/adroddiadau ac mae tystiolaeth glir bod amser wedi'i dreulio ar eu datblygiad, bod sefydliadau wedi cymryd y ddyletswydd o ddifrif ac wedi ceisio ymgorffori'r cyfrifoldeb ar draws yr holl weithrediadau:

Mae **Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru** yn ogystal â **Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru** ill dau wedi datblygu cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth manwl ac ôl meddwl arnynt sy'n cyfeirio'n gyson at yr angen i ymgorffori

bioamrywiaeth ar draws pob rhan o'r sefydliad. Mae'r rhain yn cynnwys camau gweithredu mewn safleoedd dynodedig, rheoli ystadau, adeiladau newydd a gwaith adnewyddu mawr. Mae'r cynlluniau hefyd yn nodi'r angen i ddatblygu cysylltiadau cryf â sefydliadau eraill gan gynnwys awdurdodau lleol, partneriaethau natur lleol, byrddau gwasanaethau cyhoeddus a Cyfoeth Naturiol Cymru.

- mae sawl cynllun ac adroddiad yn amlinellu camau penodol a mesuradwy, sy'n ddefnyddiol, ac mewn rhai achosion maent wedi neilltuo swyddogion penodedig i fod yn gyfrifol am bob un. Mae rhai o'r cynlluniau/adroddiadau hyn hefyd yn nodi cyflawniadau, manteision yn ogystal â chamau gweithredu sydd heb eu cyflawni. Er enghraifft:

Mae **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** wedi cyhoeddi cynllun ac adroddiad annibynnol cyfunol. Nodir pob cam gweithredu o dan yr amcan NRAP priodol a dyrennir pob un i adran benodol a swyddog arweiniol a enwir. Fel rhan o'i adroddiad, nodir statws ar gyfer pob cam gweithredu yn ogystal â diweddariad ar gynnydd.

Mae adroddiad **Cyngor Sir Fynwy** yn nodi'r uchafbwyntiau, y canlyniadau a'r manteision ar gyfer pob un o'i amcanion allweddol. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi pa rai o amcanion yr NRAP y mae pob un o amcanion ei sefydliad yn cyfrannu atynt. Amlinellir y problemau a gafwyd o ran cyflawni pob amcan. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys cyfres o astudiaethau achos ar lefel prosiect.

- mae rhai cynlluniau/adroddiadau wedi'u hymgorffori'n glir mewn agendâu ehangach, megis yr agenda llesiant a'r agenda amgylcheddol ehangach.

4.26 Roedd y prif broblemau cyffredin gyda'r cynlluniau a'r adroddiadau a adolygwyd gan y tîm gwerthuso fel a ganlyn:

- roedd rhai adroddiadau yn debycach i gynlluniau nag adroddiadau, er iddynt gael eu disgrifio fel adroddiad
- roedd rhai cynlluniau/adroddiadau yn gryno iawn ac yn fwy tebyg i ddatganiad polisi na chynllun gweithredu
- roedd rhai cynlluniau/adroddiadau yn canolbwyntio'n ormodol ar gamau amgylcheddol fel y rhai sy'n ymwneud â lleihau'r defnydd o ynni, lleihau allyriadau carbon, lleihau gwastraff, cynyddu ailgylchu a chynyddu arferion caffael gwyrdd yn hytrach na chamau gweithredu sy'n ymwneud â gwella a diogelu bioamrywiaeth
- roedd llawer o awdurdodau cyhoeddus Grŵp 1, sy'n sefydliadau swyddfa yn bennaf, yn tueddu i nodi camau gweithredu cyfyngedig iawn ar fioamrywiaeth ac yn rhoi mwy o bwyslais ar gamau gweithredu amgylcheddol fel y rhai a amlinellir uchod, a hynny'n ddealladwy
- nid yw rhai cynlluniau/adroddiadau wedi'u strwythuro'n arbennig o dda ac roeddent yn heriol i'w darllen (oherwydd eu cynnwys technegol, eu hyd, a'u diffyg defnydd o dablau, ffigurau neu gynnwys gweledol i grynhoi'r naratif). Gallai rhai cynlluniau hefyd elwa o fabwysiadu dull mwy eglur i ddangos pa amcanion NRAP y mae eu camau gweithredu yn cyfateb iddynt.

## 5. Canllawiau ar y ddyletswydd

**Canfyddiadau allweddol**

- Mae cynlluniau ac adroddiadau adran 6 yn cyd-fynd yn dda â gofynion y canllawiau ac amcanion NRAP yn gyffredinol.
- Ar y cyfan, roedd ymwybyddiaeth gref o'r canllawiau ymhlith y rhai a oedd wedi paratoi cynllun neu adroddiad ac roedd y mwyafrif o awdurdodau cyhoeddus wedi defnyddio'r canllawiau i baratoi eu cynlluniau a'u hadroddiadau ac wedi eu cael yn ddefnyddiol o ran darparu fframwaith a strwythur iddynt
- Nid oedd y rhai nad oeddent wedi paratoi cynllun neu adroddiad hyd yma yn ymwybodol iawn o'r canllawiau nes i rywun gysylltu â nhw mewn perthynas â'r ymchwil
- Byddai awdurdodau cyhoeddus yn croesawu gweld mwy o astudiaethau achos ac enghreifftiau o arferion gorau yn y canllawiau
- Teimlwyd y gallai Llywodraeth Cymru gyfathrebu'n fwy rheolaidd ag awdurdodau cyhoeddus, yn arbennig i godi ymwybyddiaeth ar lefel uwch o bwysigrwydd cydymffurfio â'r ddyletswydd er mwyn gwella a chynnal bioamrywiaeth.
- Byddai llawer o awdurdodau cyhoeddus yn croesawu mwy o adborth gan Lywodraeth Cymru ar gynnwys eu hadroddiadau adran 6.

5.1 Mae'r bennod hon yn mynd i'r afael â dau o'r amcanion ymchwil ac yn ceisio canfod i ba raddau y mae cynlluniau ac adroddiadau yn cyfateb i ofynion y ddyletswydd, ac yn benodol a ydynt yn dilyn y canllawiau ac yn defnyddio amcanion Cynllun Gweithredu Adfer Natur (NRAP) Cymru. Mae hefyd yn amlygu canfyddiadau allweddol o ran unrhyw ganllawiaiu pellach, cymorth, hyfforddiant, neu gamau eraill y byddai awdurdodau cyhoeddus yn eu cael yn ddefnyddiol er mwyn galluogi hyn.

### Cyfatebiaeth â chanllawiau ac amcanion NRAP

5.2 Mae Tabl 5.1 yn nodi a yw cynlluniau ac adroddiadau a gaiff eu llunio gan awdurdodau cyhoeddus yn dilyn canllawiau'r ddyletswydd. At ei gilydd, barnwyd bod tua thri chwarter y cynlluniau a'r adroddiadau a adolygwyd yn dilyn y canllawiau ac ystyriwyd bod nifer fach yn eu dilyn yn rhannol. Cymharol ychydig o gynlluniau neu adroddiadau yr ystyriwyd nad oeddent yn dilyn y canllawiau o gwbl, ac roedd y rhain yn tueddu i fod yn ddatganiadau polisi mwy generig a'r rhai nad oeddent yn cyfeirio o gwbl at amcanion NRAP.

**Tabl 5.1: Dadansoddiad o p'un a yw cynlluniau ac adroddiadau awdurdodau cyhoeddus yn dilyn canllawiau'r ddyletswydd**

| | Nifer y cynlluniau | Nifer yr adroddiadau |
|---|---|---|
| Ydyn | 34 | 31 |
| Yn rhannol | 7 | 5 |
| Nac ydyn | 4 | 3 |
| Cyfanswm | 45 | 39 |

5.3 Ystyriodd y dadansoddiad hefyd pa chwe amcan NRAP yr oedd y cynlluniau a'r adroddiadau yn cyfateb iddynt. O blith y 45 o gynlluniau a ddadansoddwyd, roedd cyfatebiaeth dda ag amcanion NRAP yn gyffredinol, gyda llai yn cyfateb ag amcanion 3 (gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy cydnerth drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd) a 5 (gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro).

**Tabl 5.2: Yr amcanion NRAP y mae cynlluniau'n cyfateb iddynt (n=45)**

| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ydyn | 41 | 34 | 33 | 39 | 34 | 41 |
| Nac ydyn | 4 | 9 | 12 | 6 | 11 | 4 |

5.4 Ystyriodd y dadansoddiad hefyd i ba raddau yr oedd awdurdodau cyhoeddus wedi mabwysiadu'r amcanion NRAP hyn fel sail i'w cynllun. Mae Tabl 5.3 yn dangos bod y tîm ymchwil o'r farn bod dwy ran o dair o'r cynlluniau yn seiliedig ar amcanion NRAP.

**Tabl 5.3: Asesiad o amcanion NRAP mewn cynlluniau**

| Statws COG[9] | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Coch | 3 | 6% |
| Oren | 12 | 26% |
| Gwyrdd | 30 | 68% |
| Cyfanswm | 45 | 100% |

5.5 Yn nodweddiadol, roedd gan y rhai yn y categori 'gwyrdd' gynlluniau manwl a chynhwysfawr gyda chamau gweithredu penodol ar waith. Roedd y rhai yn y categori 'oren' neu 'goch' yn cynnwys llawer llai o fanylion ac yn aml roeddent yn ymarfer ticio blychau yn bennaf yn hytrach nag amlinellu unrhyw gamau gweithredu go iawn. Roedd y cynlluniau hyn hefyd yn tueddu i amlinellu gweithgareddau fel lleihau gwastraff, y defnydd o ynni neu allyriadau yn hytrach na chamau gweithredu penodol ar fioamrywiaeth yn unol ag amcanion yr NRAP neu ni wnaethant ymateb yn llawn i'r gofynion a nodwyd yn y canllawiau.

5.6 Wrth ystyried yr amcanion NRAP y mae adroddiadau cyhoeddedig yn cyfateb iddynt, ceir darlun tebyg i'r cynlluniau.

**Tabl 5.4: Y gyfatebiaeth rhwng adroddiadau ac amcanion NRAP (n=39)**

| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ydyn | 31 | 23 | 22 | 31 | 22 | 30 |
| Nac ydyn | 8 | 16 | 17 | 8 | 17 | 9 |

5.7 Unwaith eto, mae ein hasesiad o'r graddau yr adroddwyd ar amcanion NRAP yn dangos bod lefel uchel o berthnasedd a chynnwys o safon ym mwyafrif yr adroddiadau:

[9] Coch, Oren Gwyrdd

**Tabl 5.5: Asesiad o amcanion NRAP yn yr adroddiadau (n=39)**

| Statws COG | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Coch | 2 | 5% |
| Oren | 10 | 26% |
| Gwyrdd | 27 | 69% |
| Cyfanswm | 39 | 100% |

5.8 Roedd yr adroddiadau yn y categori 'gwyrdd' yn fanwl ac wedi'u cynllunio'n dda ac yn cyfateb yn glir i amcanion yr NRAP. Roedd y rhai yn y categori 'oren' neu 'goch' yn tueddu i amlygu gweithgareddau amgylcheddol ehangach yn hytrach na rhai sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth neu gynnwys llai o fanylion am gyflawniadau.

**Barn ynglŷn â pha mor ddefnyddiol yw canllawiau ac amcanion NRAP**

5.9 Roedd mwyafrif yr awdurdodau cyhoeddus a gyfwelwyd o'r farn bod y canllawiau'n ddefnyddiol, yn enwedig wrth ddatblygu adroddiadau. Ni allai tri awdurdod cyhoeddus a gyfwelwyd gofio'r canllawiau gan eu bod wedi paratoi eu hadroddiadau yn ôl yn 2019.

5.10 Barnwyd bod y canllawiau'n ddefnyddiol oherwydd eu bod:

- wedi helpu awdurdodau cyhoeddus i fod yn fwy penodol a rhesymegol wrth baratoi eu hadroddiadau drwy ddarparu strwythur neu fframwaith cadarn i weithio tuag ato:

  'daeth yr adroddiad at ei gilydd yn gyflym felly mae'n rhaid bod y canllawiau'n rhai da'

- wedi eu galluogi i edrych ar yr hyn yr oeddent yn ei wneud o safbwynt y darlun mawr
- wedi gwneud iddynt feddwl yn ehangach am yr hyn y gellid ei gyflawni

- wedi helpu i nodi bylchau.

5.11 O ran amcanion yr NRAP yn benodol, canfu awdurdodau cyhoeddus eu bod yn helpu i roi strwythur i'r cynllun. I'r rhai a chanddynt ychydig neu fawr ddim gwybodaeth am fioamrywiaeth, roedd amcanion yr NRAP wedi eu tywys i'r cyfeiriad cywir ac wedi bod yn ganllaw defnyddiol. Roedd awdurdodau cyhoeddus yn hoffi'r ffaith y gellid defnyddio amcanion yr NRAP i sicrhau cydymffurfiaeth.

5.12 Dim ond pedwar o'r awdurdodau cyhoeddus a gyfwelwyd nad oeddent wedi gwneud llawer o ddefnydd o amcanion yr NRAP wrth baratoi eu cynlluniau neu eu hadroddiadau. Mewn un achos roedd y cynllun bioamrywiaeth eisoes ar gam eithaf datblygedig pan gyhoeddwyd y canllawiau felly dim ond er mwyn gwirio eu bod yn bodloni'r holl ofynion y defnyddiwyd amcanion yr NRAP, ac ni wnaed unrhyw waith ailddrafftio. Roedd un arall yn cofio nad oedd yn hawdd cael gafael ar amcanion yr NRAP adeg drafftio ei gynllun ac ni allai dau arall gofio a oeddent wedi defnyddio amcanion yr NRAP wrth ddrafftio eu hadroddiadau ai peidio.

5.13 Dim ond un o'r rhai a gyfwelwyd a oedd â chynllun a ddywedodd nad oedd yn ymwybodol o'r canllawiau ac roedd wedi llunio ei gynllun gan ddefnyddio ei wybodaeth a'i gefndir eu hun mewn bioamrywiaeth.

5.14 Nid oedd dau ymatebydd a gyfwelwyd, y ddau o awdurdodau cyhoeddus yng Nghrŵp 1, yn credu bod y canllawiau'n ddefnyddiol iawn. Roeddent yn rhy eang ac nid oeddent yn canolbwyntio'n ddigonol ar yr hyn y gallai sefydliadau bach heb gylch gwaith yn ymwneud â bioamrywiaeth ei gyflawni.

5.15 O blith y rhai nad oedd ganddynt gynllun neu adroddiad drafft hyd yn oed, nid oedd y mwyafrif yn ymwybodol o'r canllawiau nes iddynt gael gwybod amdanynt fel rhan o'r gwerthusiad hwn. Y prif reswm dros beidio ag edrych ar y canllawiau i ddechrau oedd y ffaith bod yr awdurdodau cyhoeddus hyn wedi tybio nad oedd y ddyletswydd yn berthnasol iddyn nhw.

### Sut y gellid gwella'r canllawiau cyfredol

5.16 Er gwaethaf y ffaith bod y canllawiau eisoes yn cynnwys templed adroddiad, un o'r prif geisiadau gan awdurdodau cyhoeddus a gyfwelwyd oedd am dempled o'r fath, sy'n awgrymu diffyg ymwybyddiaeth o'r hyn sydd eisoes ar gael. Cydnabuwyd y byddai mabwysiadu templed cyson yn ei gwneud yn haws i Lywodraeth Cymru asesu effaith y ddyletswydd, gan y byddai adroddiadau mwy cymaradwy yn ei gwneud yn haws mesur cynnydd a chreu darlun cenedlaethol o'r hyn sy'n digwydd.

5.17 Cais arall gan sawl awdurdod cyhoeddus oedd i'r arweiniad gynnwys mwy o wybodaeth am arfer gorau. Gallai hyn fod ar ffurf astudiaethau achos neu enghreifftiau o arfer da. Teimlai awdurdodau cyhoeddus y byddai hyn yn eu helpu i weld sut yr oedd eraill mewn sefyllfa debyg iddyn nhw eu hunain yn newid y ffordd yr oeddent yn gweithio neu'n cyfrannu at y ddyletswydd. Nododd dau awdurdod cyhoeddus y gallai astudiaethau achos a oedd yn cynnwys elfen o ddadansoddiad cost a budd yn dangos sut y gellid ymateb i flaenoriaethau bioamrywiaeth mewn ffordd sy'n niwtral o ran cost fod yn ddefnyddiol gan y gallent helpu i ddylanwadu ar benderfyniadau yn fewnol er mwyn cyflwyno â ffyrdd newydd o weithio.

5.18 Roedd awdurdodau cyhoeddus Grŵp 1 yn benodol yn awyddus i wybod sut y gallent gael gafael ar gynlluniau ac adroddiadau sefydliadau tebyg eraill er mwyn cael syniadau ar gyfer camau gweithredu y gallent eu cymryd.

5.19 Ymhlith yr awgrymiadau eraill a gynigiwyd ar gyfer gwella'r canllawiau cyfredol roedd:

- cynnwys mwy o wybodaeth neu feini prawf penodol am yr hyn y dylid ei wneud neu y mae'n rhaid ei wneud:

  'byddai hyn yn rhoi mwy o ysgogiad i'r sefydliadau ei gyflawni'

- mwy o eglurder ynghylch pa awdurdodau cyhoeddus y mae'r ddyletswydd yn berthnasol iddynt

- mwy o fyfyrio ar effeithiau allanol yn hytrach na dim ond canolbwyntio ar weithrediadau mewnol y sefydliad
- awgrymiadau ar sut i weithio mewn partneriaeth neu sut i ddod o hyd i bartneriaethau yng Nghymru a all gefnogi'r gwelliannau bioamrywiaeth y mae awdurdodau cyhoeddus yn eu hamlinellu yn eu cynlluniau
- nodi'r gyfatebiaeth rhwng y ddyletswydd a datganiadau ardal (ar gyfer awdurdodau cyhoeddus Grŵp 3 yn benodol)
- diweddaru'r rhestr flaenoriaethau yn Adran 7 o'r Ddeddf
- cynnwys gofyniad i awdurdodau cyhoeddus sy'n dod o dan y Ddeddf Llesiant gysylltu eu cynlluniau/adroddiad adran 6 yn benodol â'r Ddeddf honno:

  'mae synergedd naturiol rhwng bioamrywiaeth a llesiant mewn natur ac mae cyfle yma i'w cydblethu ac i gael awdurdodau cyhoeddus i gyflawni mwy nag un amcan drwy ddiogelu bioamrywiaeth'.

5.20 O blith yr awdurdodau cyhoeddus nad oeddent eto wedi paratoi cynllun/adroddiad, roedd y mwyafrif wedi cael cyfle i edrych ar y canllawiau ac yn teimlo eu bod yn glir ac yn dda. Roedd un awdurdod cyhoeddus a gyfwelwyd nad oedd wedi paratoi adroddiad eto yn teimlo bod y canllawiau yn rhy hirwyntog ac y byddai'n croesawu dull cam wrth gam mwy cryno a nododd un arall 'mae yna lawer o ganllawiau ar gael ac rydym wedi eu hanwybyddu a bod yn onest'.

**Pa gymorth ychwanegol fyddai'n cael ei groesawu**

5.21 Cynigiodd yr awdurdodau cyhoeddus a gyfwelwyd sawl awgrym o ran y cymorth ychwanegol yr hoffent ei gael er mwyn cydymffurfio'n well â'r ddyletswydd.

5.22 Yn gyntaf, awgrymwyd y gallai Llywodraeth Cymru wella'r cyfathrebu. Soniodd ambell awdurdod cyhoeddus mai dim ond un neu ddau o lythyrau y gallent gofio eu derbyn mewn perthynas â'r ddyletswydd. Gan fod y rhan fwyaf o awdurdodau cyhoeddus wedi cyhoeddi eu hadroddiadau yn 2019 (neu ychydig ar ôl hynny) ac yn gweithio ar y

cylch adrodd tair blynedd a amlinellir yn y canllawiau, awgrymwyd y gellid rhannu gweminar, cyflwyniad, neu fideo byr cyn y cyfnod adrodd nesaf er mwyn codi ymwybyddiaeth:

'mae'r cylch tair blynedd yn gyfnod eithaf hir ac mae'r diddordeb yn pylu felly bydd angen ymdrech fawr eto'.

5.23 Gwelwyd hefyd bod angen mwy o ymwybyddiaeth o'r ddyletswydd ar lefel uwch a lefel strategol ar draws awdurdodau cyhoeddus, yn enwedig ymhlith prif weithredwyr ac uwch dimau rheoli, er mwyn codi ei phroffil. Awgrymwyd y byddai digwyddiad dan arweiniad y Gweinidog wedi'i dargedu at brif swyddogion gweithredu i amlinellu pwysigrwydd bioamrywiaeth yn helpu, a'i bod yn bwysig bod uwch weision sifil, yn ogystal â mwy o swyddogion iau, yn ymgysylltu ag awdurdodau cyhoeddus ar y mater.

5.24 Nododd llawer o awdurdodau cyhoeddus nad oeddent wedi cael unrhyw adborth gan Lywodraeth Cymru ar eu hadroddiadau cyhoeddedig, ac mewn rhai achosion dim cydnabyddiaeth ohonynt. Byddai hyn yn cael ei groesawu yn y dyfodol, yn bennaf er mwyn rhoi sicrwydd bod ansawdd yr adroddiadau cyhoeddedig yn dderbyniol ond hefyd i ganiatáu i awdurdodau nodi unrhyw feysydd i'w gwella:

'byddem yn croesawu adborth adeiladol gan Lywodraeth Cymru neu unrhyw un - nid ydym wedi cael dim erioed'.

5.25 Awgrymodd un o'r rhai a gyfwelwyd y gellid dysgu gwersi o'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu'r Ddyletswydd Chwarae ar awdurdodau lleol. I ddechrau, roedd awdurdodau lleol wedi bod yn cyflwyno cynlluniau blynyddol mewn perthynas â'r ddyletswydd hon ond nid oeddent yn cael adborth. Pan godwyd y mater, penodwyd swyddog penodedig o fewn Llywodraeth Cymru i weithio gyda'r sector ac i ymateb i gynlluniau a gyflwynwyd, ac arweiniodd hynny at wella ansawdd y cynlluniau a'r camau a gymerwyd. Awgrymwyd y gallai dull tebyg weithio'n dda mewn perthynas â dyletswydd adran 6.

5.26 Roedd cysylltiad agos rhwng adborth a galwad am fwy o graffu ac atebolrwydd mewn perthynas â'r ddyletswydd. Roedd sawl cyfrannwr yn

dymuno gweld gofyniad cryfach i anfon adroddiadau a chael cydnabyddiaeth o hynny gan Lywodraeth Cymru. Awgrymodd nifer fach fod angen cosb am beidio â chydymffurfio, ond roedd y rhan fwyaf o awdurdodau yn teimlo y byddai adborth manwl wedi'i anfon at uwch swyddog yn ddigonol i helpu i godi'r proffil a sicrhau bod y ddyletswydd yn cael ei hymgorffori'n fwy mewn prosesau gwneud penderfyniadau ar lefel uwch.

5.27 Ymhlith yr awgrymiadau eraill a gynigiwyd gan gyfranwyr roedd:

- sefydlu rhwydwaith wedi'i hwyluso o awdurdodau cyhoeddus er mwyn iddynt allu dysgu oddi wrth ei gilydd (cais gan ymatebwyr Grŵp 3 yn benodol oedd hwn)
- mynediad at gyngor a chymorth arbenigol (cais gan sawl ymatebydd yng Nghrŵp 1)
- darparu hyfforddiant ar yr hyn y gellir ei wneud neu enghreifftiau ymarferol. Gallai hyn gynnwys hyfforddiant penodol neu godi ymwybyddiaeth gyda chynghorau cymunedol (ar gyfer Grŵp 3 yn benodol) fel y gallent weithio gyda'u hawdurdodau lleol i wneud gwelliannau i fioamrywiaeth
- penodi Comisiynydd yr Amgylchedd (gan weithio yn yr un ffordd ag y mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol neu Gomisiynydd y Gymraeg yn ei wneud er mwyn dwyn sefydliadau i gyfrif) i fod yn gyfrifol am faterion bioamrywiaeth:

  'byddai hyn yn gwneud gwahaniaeth mawr i statws a chamau gweithredu'
- rhoi ystyriaeth ddyledus i weld a ellid defnyddio'r ddyletswydd fel ysgogiad o fewn dull cyllido economi gylchol Llywodraeth Cymru. Roedd un awdurdod cyhoeddus wedi gweld y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i ddileu plastig untro ac yn teimlo y gallai gael ei ddefnyddio i gefnogi bioamrywiaeth mewn ardal hefyd.

## 6. Rhwystrau a galluogwyr

**Canfyddiadau allweddol**

- Mae tair thema i'r rhwystrau a'r galluogwyr allweddol i weithredu dyletswydd adran 6: a) adnoddau, b) gwybodaeth a hysbysrwydd, a c) blaenoriaethau a dylanwadau.
- Diffyg adnoddau oedd y prif rwystr a nodwyd, yn enwedig gan awdurdodau lleol, oherwydd toriadau'n ymwneud â chyni, lleihad mewn timau 'gwyrdd' a newidiadau i'r ffordd y mae gwaith bioamrywiaeth yn cael ei ariannu.
- Mae diffyg gwybodaeth a hysbysrwydd am fioamrywiaeth ymysg awdurdodau cyhoeddus nad oes ganddynt staff penodedig ar gyfer adnoddau naturiol.
- Mae'r ddyletswydd yn aml yn cael ei hyrwyddo gan unigolion ymroddedig a chanddynt arbenigedd ecolegol/amgylcheddol priodol a sgiliau cyfathrebu cryf.
- Galluogydd allweddol i awdurdodau cyhoeddus Grŵp 3 fu penodi aelodau etholedig yn hyrwyddwyr bioamrywiaeth ar draws y sefydliad.
- Mae awdurdodau llai heb dir wedi ei chael hi'n anodd nodi camau gweithredu y gallant eu cymryd.
- Cafwyd anhawster i roi lle amlwg i'r ddyletswydd gan fod blaenoriaethau eraill wedi ei bwrw i'r cysgod, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r agenda newid yn yr hinsawdd.
- Mae sawl rheswm pam nad yw awdurdodau cyhoeddus wedi paratoi na chyhoeddi cynllun/adroddiad gan gynnwys oedi gyda phrosesau cymeradwyo ffurfiol (yn aml oherwydd COVID-19), diffyg ymwybyddiaeth o'r angen i lunio adroddiad, a diffyg amser ac adnoddau i wneud hynny.

- Un o'r prif resymau pam nad yw cynghorau cymunedol a thref wedi paratoi na chyhoeddi cynllun nac adroddiad yw'r ffaith eu bod wedi cael gwybod yn hwyr iawn yn y dydd bod angen iddynt wneud hynny yn ogystal â diffyg adnoddau gwybodaeth.

6.1 Mae'r bennod hon yn nodi'r rhwystrau a'r galluogwyr allweddol i roi'r ddyletswydd ar waith. Mae hefyd yn ystyried y prif resymau pam nad yw rhai awdurdodau cyhoeddus wedi paratoi na chyhoeddi adroddiad adran 6.

**Rhwystrau allweddol**

6.2 Gellir rhannu'r rhwystrau i gydymffurfio â'r ddyletswydd yn dri chategori cyffredinol:

- diffyg adnoddau
- diffyg gwybodaeth a hysbysrwydd, a
- blaenoriaethau a dylanwadau.

*Diffyg adnoddau*

6.3 Hwn oedd y rhwystr a grybwyllwyd amlaf gan awdurdodau cyhoeddus. Roedd awdurdodau lleol yn debygol iawn o dynnu sylw at hyn fel problem, gan nodi toriadau yn sgil cyni a lleihad o ran eu timau 'gwyrdd' a oedd yn golygu bod llai o staff ar gael i ddelio â'r cynnydd mewn llwythi gwaith a dyletswyddau. Wedi dweud hynny, roedd y mwyafrif o awdurdodau lleol a gafodd eu cyfweld wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd.

6.4 Mae newidiadau i'r ffordd y mae gwaith bioamrywiaeth yn cael ei ariannu ar draws awdurdodau lleol yn cael effaith fawr. Mae colli Ffrwd ariannu Partneriaeth CNC ac wedi hynny y Grant Refeniw Sengl wedi arwain at ansicrwydd i staff a llai o gapasiti i gyflawni'r gwaith. Amlygodd un awdurdod cyhoeddus a gyfwelwyd fod hyn wedi arwain yn uniongyrchol at golli un aelod o staff. Er bod cyllid newydd y cynllun Galluogi Adnoddau Naturiol a Lles (ENRaW) wedi'i groesawu, mae natur gystadleuol y grant, a'r oedi sylweddol y mae rhai wedi'i wynebu gyda chymeradwyo'r cyllid, yn golygu bod llai o gysondeb i'r gwaith y gellir ei

gyflawni, gan gynnwys cydymffurfio â'r ddyletswydd. Cydnabuwyd hefyd, er bod y rhan fwyaf o gyllid Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar brosiectau cyfalaf, yn aml roedd mwy o angen am gyllid refeniw i sicrhau y gallai safleoedd presennol gael eu rheoli a'u cynnal mewn ffordd a fyddai'n caniatáu i awdurdodau cyhoeddus gyflawni eu cynlluniau adran 6.

6.5 I awdurdodau cyhoeddus eraill, roedd y diffyg adnoddau yn eu cyfyngu rhag prynu arbenigwyr i mewn i'w helpu i weithredu'r ddyletswydd a mynd i'r afael â'u diffyg gwybodaeth fewnol. Roedd rhai awdurdodau cyhoeddus yng Ngrŵp 1 hefyd o'r farn y byddai cydymffurfio â'r ddyletswydd yn gofyn am fuddsoddiad ariannol ganddynt.

*Diffyg gwybodaeth a hysbysrwydd*

6.6 Roedd diffyg gwybodaeth yn broblem benodol i sefydliadau nad oeddent yn awdurdodau lleol. Mae awdurdodau lleol yn tueddu i fod â thîm adnoddau naturiol pwrpasol neu o leiaf ecolegydd ymroddedig sydd â'r wybodaeth angenrheidiol i ysgrifennu a gweithredu cynllun. Fodd bynnag, i sefydliadau eraill nad oes ganddynt yr adnodd pwrpasol hwn, roedd diffyg gwybodaeth am faterion bioamrywiaeth yn rhwystr, i ddechrau o leiaf ac roedd yn rhaid i lawer ddibynnu ar aelod o staff â diddordeb personol yn y maes hwn i helpu i ddatblygu a gweithredu cynllun.

6.7 Yn ogystal â diffyg gwybodaeth am fioamrywiaeth, codwyd diffyg gwybodaeth am yr hyn y dylai neu y gallai cynllun ei gynnwys hefyd. I sefydliadau â thir, boed yn ystâd helaeth neu hyd yn oed dir o amgylch adeilad, dyma oedd y ffocws ar gyfer datblygu cynllun. Fodd bynnag, roedd yn rhaid i sefydliadau llai â niferoedd cyfyngedig o staff a oedd yn aml â swyddfeydd bach ar rent fod yn fwy creadigol gyda'u cynlluniau ac roedd y diffyg gwybodaeth am yr hyn y gallai eu cynlluniau ei gynnwys neu sut y dylent edrych yn rhwystr. Cododd y sefydliadau a gafodd eu cyfweld ddiffyg enghreifftiau o arfer da, cydweithredu ymhlith cyrff cyhoeddus a diffyg cyfathrebu gan Lywodraeth Cymru.

6.8 Roedd cyfathrebu gwael gan Lywodraeth Cymru yn thema gyson gan lawer o awdurdodau cyhoeddus, yn enwedig awdurdodau nad ydynt yn awdurdodau lleol. Ymhlith y problemau roedd diffyg deialog y tu allan i nodiadau atgoffa ffurfiol i gydymffurfio â'r ddyletswydd, diffyg manylion cyswllt ar gyfer unigolyn a enwir o fewn Llywodraeth Cymru i ofyn cwestiynau iddo, yr angen am hyfforddiant cychwynnol a mwy o adborth ar gynlluniau ac adroddiadau a gyflwynwyd i roi gwybod i sefydliadau a yw eu hymdrechion yn golygu eu bod yn 'cydymffurfio'. Dywedodd un sefydliad a gafodd ei gyfweld ei fod yn teimlo ei fod ar ei ben ei hun gan nodi y byddai mwy o wybodaeth, adborth a chyfleoedd rhwydweithio wedi ei alluogi i gydymffurfio'n gynharach.

6.9 Codwyd canfyddiad y cyhoedd hefyd fel rhwystr, yn bennaf gan awdurdodau lleol. Lle mae camau gweithredu yn cynnwys, er enghraifft, gadael lleiniau glas heb eu torri er mwyn annog bywyd gwyllt, byddant yn aml yn cael cwynion gan aelodau'r cyhoedd yn dweud bod y lleiniau'n anniben. Cyfeiriodd ambell awdurdod lleol at brosiect a gynhaliwyd gan Gyngor Sir Fynwy o'r enw 'Natur Wyllt' fel enghraifft dda o ymdrechion i addysgu pobl a newid eu canfyddiadau o fyd natur.

*Blaenoriaethau a dylanwadau*

6.10 Cyfeiriwyd at yr angen i gydymffurfio â blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd a dyletswyddau cyfreithiol eraill fel rhwystr mawr rhag cydymffurfio â'r ddyletswydd. Amlygodd awdurdodau lleol yr anhawster o gael adrannau eraill i ymgysylltu â'r ddyletswydd gan fod ganddynt eu blaenoriaethau a'u gofynion deddfwriaethol eu hunain. Mae bioamrywiaeth yn aml yn cael ei hystyried yn broblem i rywun arall. Nodwyd bod pwysau'n ymwneud â datblygu economaidd yn aml yn drech nag ystyriaethau eraill. Codwyd diffyg dull 'o'r brig i lawr' mewn llawer o awdurdodau cyhoeddus, a'r ffaith bod y ddyletswydd wedi'i dirprwyo i'r tîm 'gwyrdd' yn hytrach na chael ei hystyried yn fater corfforaethol, trawsbynciol.

6.11 Teimlai llawer o'r cyfranwyr fod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (y Ddeddf Llesiant) (Cymru) 2015, y mae'r rhan fwyaf o awdurdodau

cyhoeddus wedi'i chroesawu, wedi bwrw'r ddyletswydd i'r cysgod. Er bod cyfatebiaeth amlwg rhwng y Ddeddf hon a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, nid yw'r awdurdodau cyhoeddus yn cydnabod hyn bob tro. Nid yw camau i gyflawni Cymru gydnerth bob amser yn cynnwys camau i sicrhau ecosystemau cydnerth. Mae creu gwell cysylltiadau rhwng y ddau, gyda gwell gwybodaeth am y gydberthynas rhwng y ddau, yn ddefnyddiol gan fod cydymffurfio â'r Ddeddf Llesiant yn aml yn cael ei ystyried yn swyddogaeth gorfforaethol a gyflawnir fel rhan o swyddfa'r Prif Weithredwr. Byddai sicrhau bod y ddyletswydd wedi'i chysylltu'n agosach â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd yn helpu i rannu profiadau ac adnoddau.

6.12 Yn yr un modd, soniodd awdurdodau lleol nad oedd cynlluniau newid yn yr hinsawdd a di-garbon o reidrwydd yn cynnwys sôn am y rôl y mae'n rhaid i'r amgylchedd naturiol ei chwarae o ran cyrraedd targedau. Mae'r rhain hefyd yn aml yn cael eu cyflawni fel swyddogaeth gorfforaethol a byddai cysylltiadau agosach â'r ddyletswydd yn helpu i brif ffrydio ei gweithrediad.

6.13 Un rheswm a nodwyd ynghylch pam nad oedd materion yn ymwneud â'r ddyletswydd a bioamrywiaeth yn cynyddu o ran eu pwysigrwydd mewn perthynas â blaenoriaethau a oedd yn cystadlu â'i gilydd oedd y ffaith nad oedd unrhyw ganlyniadau i beidio â chydymffurfio. Gofynnodd llawer 'beth sy'n digwydd os na fyddwch yn cydymffurfio?'. Tynnodd rhai sylw at lwyddiannau ymyriadau eraill gan Lywodraeth Cymru megis awdurdodau lleol yn cyflawni targedau ailgylchu lle roedd cosbau ariannol sylweddol i awdurdodau a oedd yn methu â gwneud hynny. Er na ofynnodd neb am gyflwyno canlyniadau tebyg ar gyfer y ddyletswydd, cydnabuwyd bod diffyg cosb am beidio â chydymffurfio yn rhwystr i sicrhau cydymffurfiaeth.

6.14 Amlygwyd yr angen i sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd ar draws amrywiol ffrydiau cyllido Llywodraeth Cymru hefyd fel ffordd i orfodi rhyw elfen o ganlyniad yn sgil peidio â gwneud hynny, yn enwedig o fewn awdurdodau lleol. Er enghraifft, awgrymwyd y dylai grantiau tai ei

gwneud yn ofynnol i bob prosiect gydymffurfio â'r ddyletswydd a chynlluniau awdurdodau lleol.

**Galluogwyr allweddol**

6.15 Yn ôl y disgwyl, roedd y galluogwyr i gydymffurfio â'r ddyletswydd yn aml yr un fath â'r rhai a nodwyd fel rhwystrau. Er enghraifft, mae diffyg adnoddau yn rhwystr, ond gyda digon o adnoddau mae'n haws cydymffurfio.

*Adnoddau*

6.16 Nodwyd mai'r galluogwr allweddol ar gyfer cydymffurfio ac ymgorffori'r ddyletswydd ar draws gwaith awdurdod cyhoeddus oedd sicrhau bod y bobl iawn yn eu lle. Er bod hyn yn amlwg yn cyfeirio at bobl â'r wybodaeth gywir, roedd cael pobl â'r sgiliau cywir ac ar statws digon uchel i gyfathrebu ag eraill ac ennyn eu cefnogaeth yr un mor bwysig. Roedd hyn yn wir am awdurdodau lleol ac awdurdodau cyhoeddus eraill.

6.17 O ran awdurdodau lleol, ystyriwyd bod cael rhywun sy'n ymroddedig i gydymffurfio â'r ddyletswydd yn bwysig. Mae timau yn aml yn cael eu gwasgaru'n denau a gall dyletswyddau ychwanegol ddisgyn drwy'r rhwyd yn sgil y pwysau i gwblhau gwaith o ddydd i ddydd. Roedd cael swyddog â sgiliau cyfathrebu da a chanddo amser i ymgysylltu ag adrannau eraill a darparu cyngor a chymorth yn allweddol, gydag un cyfwelai yn disgrifio defnyddio dull 'moron a ffon', gan ddweud wrth bobl am y ddyletswydd a sut y gallent eu helpu i gydymffurfio â hi. Yn yr un modd, roeddent yn ei chael yn haws ymgysylltu ag adrannau eraill pan oedd unigolyn yno a oedd â diddordeb personol yn y ddyletswydd neu yr oeddent eisoes wedi meithrin perthynas waith dda ag ef.

*Gwybodaeth a hysbysrwydd*

6.18 Roedd rhai awdurdodau cyhoeddus llai yn ei chael yn ddefnyddiol chwilio am enghreifftiau o'r hyn yr oedd sefydliadau tebyg eraill wedi'i wneud er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd. Cyfeiriwyd at wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru fel ffynhonnell wybodaeth dda, ond nodwyd nad yw'n ymddangos bod yr holl gynlluniau ac adroddiadau a luniwyd yn cael eu cadw yno. Fel y trafodwyd eisoes, roedd llawer o awdurdodau

cyhoeddus yn teimlo y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i rannu arfer da.

6.19 Ystyriwyd bod codi ymwybyddiaeth o'r ddyletswydd a'r materion sy'n gysylltiedig â hi ar draws sefydliad yn bwysig hefyd. Roedd addysg a gweithio'n agos gydag ysgolion hefyd yn cael ei hystyried yn ffordd o sicrhau y byddai cenedlaethau'r dyfodol yn fwy ymwybodol o'r amgylchedd.

*Blaenoriaethau a dylanwadau*

6.20 Nodwyd sawl ffordd y gallai awdurdodau lleol sicrhau bod y ddyletswydd yn cael mwy o flaenoriaeth ar draws gwaith y cyngor. Roedd y rhain yn cynnwys:

- cael cynghorydd penodedig yn gyfrifol am faterion bioamrywiaeth a sicrhau eu bod yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau. Fodd bynnag, dylid nodi bod eraill wedi dweud bod hyn weithiau'n caniatáu i eraill esgusodi eu hunain rhag cyfrifoldeb gan adael y cyfan i'r un cynghorydd hwn
- nodi hyrwyddwyr bioamrywiaeth ym mhob adran o'r cyngor
- pwysau gan y cyhoedd. Er y codwyd hyn hefyd fel rhwystr, gan fod materion amgylcheddol yn cael eu trafod yn gynyddol yn y cyfryngau, a chydag ymwybyddiaeth gynyddol y cyhoedd o'u hamgylchedd lleol yn ystod y pandemig COVID-19, mae gan y cyhoedd ran gref i'w chwarae o ran sicrhau bod bioamrywiaeth a materion amgylcheddol eraill yn cael lle blaenllaw yng ngwaith awdurdodau lleol
- cyngor clir gan Lywodraeth Cymru ar bwysigrwydd y ddyletswydd. Fe wnaeth dau awdurdod lleol sylwadau cadarnhaol ar lythyr a ysgrifennwyd gan y Prif Gynllunydd a anfonwyd at bob awdurdod yn nodi'r angen i ystyried y ddyletswydd mewn penderfyniadau blaengynllunio a chynllunio. Roeddent yn teimlo bod hyn wedi helpu i gryfhau rôl cyngor ecolegol yn y broses gynllunio, a dylid ystyried cyhoeddi llythyrau tebyg ar gyfer

meysydd cyflawni eraill y mae Llywodraeth Cymru yn dylanwadu arnynt

- sicrhau bod materion yn ymwneud â bioamrywiaeth a'r ddyletswydd yn cael eu hystyried yn gyfrifoldebau trawsbynciol corfforaethol a mabwysiadu dull o'r brig i lawr, ond dylid nodi na ddywedodd yr un o'r awdurdodau a gyfwelwyd yn benodol eu bod wedi cyflawni hyn.

**Rhesymau pam nad yw awdurdodau wedi paratoi/cyhoeddi cynllun/adroddiad**

6.21 Nid oedd tri ar ddeg o awdurdodau cyhoeddus a oedd wedi ymateb i'r arolwg neu a gafodd eu cyfweld wedi paratoi na chyhoeddi cynlluniau ac adroddiadau hyd yn hyn. Rhoddwyd sawl rheswm am hyn:

- mewn pedwar achos (pob un yn sefydliad Grŵp 3) roedd adroddiad drafft wedi'i lunio yn unol â'r gofynion statudol yn 2019 ond bu oedi o ran eu prosesau cymeradwyo ffurfiol mewnol, yn aml oherwydd oedi'n gysylltiedig â'r pandemig COVID-19
- mewn pedwar achos arall, nid oedd awdurdodau cyhoeddus wedi bod yn ymwybodol bod gofyn iddynt baratoi adroddiad, nes i rywun gysylltu â nhw fel rhan o'r gwerthusiad hwn, neu mewn un achos roedd yr awdurdod wedi derbyn llythyr gan Lywodraeth Cymru ond nid oedd yn credu ei fod yn berthnasol iddo ef
- nododd pedwar awdurdod cyhoeddus arall ddiffyg amser ac adnoddau i baratoi'r cynllun/adroddiad. Awdurdodau cyhoeddus Grŵp 3 oedd y rhain yn bennaf gydag adrannau cynaliadwyedd neu fioamrywiaeth a oedd ar hyn o bryd yn brin o staff neu nad oeddent wedi penodi swyddog
- nododd un awdurdod cyhoeddus nad oedd paratoi adroddiad wedi bod yn flaenoriaeth i sefydliad bach nad oedd ganddo ystâd ac a oedd ond yn meddiannu llawr mewn bloc o swyddfeydd. Nodwyd hefyd nad oedd y ceisiadau gan Lywodraeth Cymru wedi cael eu hanfon at y rhan gywir o'r sefydliad, felly roedd wedi

cymryd amser i'r cais gyrraedd yr unigolyn cywir. Yn yr achos hwn, roedd yr awdurdod wedi ceisio cysylltu â Llywodraeth Cymru i gael cadarnhad ynghylch a oedd angen iddynt adrodd yn erbyn y ddyletswydd ond nid oedd wedi cael ymateb hyd yma.

6.22 Dim ond cyfran fach o gynghorau cymuned a thref sy'n cydymffurfio â'r ddyletswydd ac mae sawl rheswm am hyn:

Ychydig iawn o'r 735 o **gynghorau cymuned a thref** ledled Cymru sydd wedi gallu cydymffurfio â dyletswydd adran 6 hyd yma, yn bennaf oherwydd eu bod wedi cael eu hysbysu yn hwyr yn y dydd gan Lywodraeth Cymru bod y ddyletswydd yn berthnasol iddynt. Dim ond ar ddiwedd 2019/dechrau 2020 y cafodd y sector gyfarwyddyd a chanllawiau ffurfiol yn dweud bod gofyn iddynt lunio cynlluniau. Ers i'r canllaw hwn gael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru, mae Un Llais Cymru wedi bod yn cefnogi'r sector i gydymffurfio drwy ledaenu gwybodaeth i aelodau.

Rhestrir naw cyngor cymuned a thref ar wefan y Bartneriaeth Bioamrywiaeth fel rhai sydd wedi cyhoeddi adroddiad, ond nid yw llawer o'r dolenni a ddarperir i'w hadroddiadau yn gweithio. Mae'r adborth a gafwyd fel rhan o'r adolygiad hwn yn awgrymu bod tua 60 o gynghorau wedi rhannu adroddiadau â Llywodraeth Cymru.

Un o'r materion allweddol sy'n wynebu cynghorau cymuned a thref yw'r diffyg gwybodaeth ac adnoddau i ddatblygu cynlluniau ac adroddiadau sy'n bodloni'r gofynion deddfwriaethol. At hynny, nid oes gan Un Llais Cymru arbenigedd nac adnoddau arbenigol i ddarparu'r cyngor a'r gefnogaeth angenrheidiol i gynghorau ar ddatblygu eu cynlluniau a'u hadroddiadau. Byddai'r sector yn elwa o adnoddau ychwanegol i helpu i ddarparu cymorth ac arweiniad wedi'i deilwra i gynghorau cymunedol a thref. Byddai hyn hefyd yn caniatáu ar gyfer hyrwyddo mwy o'r ddyletswydd ymhlith cynghorau, darparu gweminarau gwybodaeth wedi'u teilwra ac ymateb i geisiadau gan gynghorau unigol am gyngor.

## 7. Y gwahaniaeth a wnaed

**Canfyddiadau allweddol**

- Prif effaith y ddyletswydd fu gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fioamrywiaeth ar draws awdurdodau cyhoeddus.
- Mae wedi cyfrannu'n gadarnhaol, ond i raddau llai, at ymgorffori bioamrywiaeth yn fwy ym mhenderfyniadau awdurdodau cyhoeddus a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt.
- Mae'r gwahaniaeth a wneir i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yn amrywio yn ôl y math o sefydliad - roedd llawer o awdurdodau lleol eisoes yn weithredol yn y maes hwn cyn i'r ddyletswydd gael ei chyflwyno ond mae'r ddyletswydd wedi helpu i roi mwy o amlygrwydd a phwysigrwydd i'r agenda.
- Dywed llawer o awdurdodau cyhoeddus eu bod bellach yn torri gwair yn llai aml nag o'r blaen ac yn ei reoli'n well er budd peillwyr a bywyd gwyllt arall. Ymhlith y newidiadau eraill a gyflwynwyd mae gerddi bywyd gwyllt a llesiant, blychau adar ac ystlumod, a chreu pentyrrau o logiau pan fydd coed yn cael eu torri.
- Mae awdurdodau cyhoeddus heb dir wedi ei chael hi'n anoddach rhoi camau ar waith sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at fioamrywiaeth ac mae eu hystod o gamau gweithredu yn fwy cyfyngedig.

7.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu canfyddiadau'r gwaith maes mewn perthynas â'r gwahaniaeth y mae'r ddyletswydd wedi'i wneud i ffordd awdurdodau cyhoeddus o weithio a gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth.

**Y gwahaniaeth a wnaed i awdurdodau cyhoeddus**

7.2 Mae dadansoddiad o'r cynlluniau a'r adroddiadau sydd ar gael yn awgrymu bod mwyafrif yr awdurdodau cyhoeddus wedi dangos tystiolaeth gref o bob un o'r pum thema weithredu sy'n deillio o amcanion

yr NRAP. Nodir y rhain yn Nhabl 7.1 ac mae'n dangos bod tua thri chwarter y cynlluniau/adroddiadau a adolygwyd wedi'u hanelu at ddiogelu cynefinoedd penodol a gwella cydnerthedd cynefinoedd.

**Tabl 7.1: Adroddiadau a chynlluniau adran 6 sy'n cyflawni yn erbyn pum thema weithredu NRAP**

| | Tystiolaeth o gamau prif ffrydio | Wedi defnyddio tystiolaeth | Cefnogi camau gweithredu gan eraill | Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd | Gwella cydnerthedd cynefinoedd |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydyn | 38 | 38 | 43 | 45 | 42 |
| Nac ydyn | 10 | 12 | 9 | 11 | 11 |
| Anodd dweud | 10 | 8 | 6 | 2 | 5 |


7.3 Mae ein hasesiad o'r dystiolaeth sydd ar gael o fewn cynlluniau ac adroddiadau cyhoeddedig yn awgrymu bod tua hanner yr awdurdodau cyhoeddus yn gallu dangos bod cydymffurfio â'r ddyletswydd yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar eu sefydliad, sef y rhai yn y categori 'gwyrdd' yn Nhabl 7.2. Roedd mwyafrif y cynlluniau/adroddiadau a ystyriwyd wedi'u rhoi yn y categori 'oren' a byddai'r rhain yn cynnwys awdurdodau a oedd eisoes yn cymryd rhan weithredol mewn materion bioamrywiaeth h.y., roedd cyflwyno'r ddyletswydd yn cael rhywfaint o effaith ar eu gwaith. Cafodd nifer fach eu rhoi yn y categori 'coch' ac roedd y rhain yn awdurdodau lle yr ystyriwyd nad oedd y ddyletswydd wedi cael unrhyw effaith o gwbl ar eu gwaith.

**Tabl 7.2: Asesiad o effaith y ddyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus**

| Statws COG | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Coch | 4 | 7% |
| Oren | 22 | 38% |
| Gwyrdd | 31 | 53% |
| Cyfanswm | 58 | 100% |

7.4 Mae canfyddiadau'r arolwg ar-lein yn adleisio'r dadansoddiad hwn. Mae Ffigur 7.1 yn nodi'r newidiadau a welwyd gan awdurdodau cyhoeddus a arolygwyd o ganlyniad i gydymffurfio â'r ddyletswydd. Awgryma fod cyflwyno'r ddyletswydd wedi helpu i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion bioamrywiaeth ar draws sefydliadau ond mae wedi cael llai o effaith ar ymgorffori ystyriaethau bioamrywiaeth ar draws sefydliadau a gwasanaethau.

**Ffigur 7.1: Newidiadau a welir ar draws awdurdodau cyhoeddus yn sgil cydymffurfio â'r ddyletswydd**




Ffynhonnell: Arolwg OB3 (52 o ymatebwyr)

*Ystyriaeth o fewn gwasanaethau*

7.5 Y ffaith bod y ddyletswydd yn ofyniad cyfreithiol ffurfiol y mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio â hi yw'r brif ffordd y mae wedi gwneud gwahaniaeth i'r ffocws a roddir ar fioamrywiaeth, yn ôl y rhai a gafodd eu cyfweld. Mae'r ddyletswydd wedi ei gwneud yn haws cael cefnogaeth gorfforaethol. Soniodd sawl awdurdod a gyfwelwyd fod y ddyletswydd wedi rhoi'r 'bachyn' iddynt siarad ag aelodau eraill o staff neu adrannau eraill am faterion yn ymwneud â bioamrywiaeth:

'rydym yn ei ddefnyddio i ymgysylltu â chydweithwyr i egluro iddyn nhw pam mae angen bod yn fwy rhagweithiol o ran sut maen nhw'n rheoli neu'n datblygu tir'

'Mae adran 6 wedi rhoi mwy o rym i'n sylwadau - nid ydynt bellach yn cael eu gweld fel dim ond sylwadau, ond yn hytrach materion pwysig i'w

hystyried. Mae wedi helpu i wneud i bobl feddwl am fioamrywiaeth o'r dechrau'n deg ac ystyried materion amgylcheddol mewn ffordd fwy cyfannol'

'mae wedi bod yn ymdrech ychwanegol ac rydym wedi gallu dadlau'r achos dros gael cyllid ychwanegol i helpu i gyflawni'r amcanion'.

7.6 Roedd sawl awdurdod lleol wedi sylwi bod adrannau cynllunio, yn benodol, bellach yn rhoi mwy o sylw i fioamrywiaeth a bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth yn digwydd yn gynharach yn y broses gynllunio gyda gwell cyfle i ddylanwadu ar y penderfyniadau terfynol o ganlyniad i hynny. Roedd awdurdod cyhoeddus arall yn newid manyleb ei gontract cynnal a chadw tir i gynnwys gwelliannau bioamrywiaeth ar draws ei holl safleoedd.

7.7 Roedd awdurdodau cyhoeddus llai, a oedd yn aml wedi'u lleoli mewn un swyddfa fach, yn teimlo'n llai abl i wneud newidiadau mawr i wasanaethau a ddarparwyd o ddydd i ddydd.

*Ymgorffori'r ddyletswydd yn fwy ar draws y sefydliad*

7.8 Rhoddwyd enghreifftiau o fewn awdurdodau lleol lle y defnyddiwyd y ddyletswydd yn llwyddiannus i ysgogi newidiadau mewn arferion gwaith o fewn adrannau cynllunio, trafnidiaeth neu ystadau - yn enwedig o ran ymgorffori ystyriaethau bioamrywiaeth fel mater o drefn ar gam cynharach mewn datblygiadau newydd. Fodd bynnag, prin oedd y dystiolaeth bod bioamrywiaeth yn fater sydd wedi'i ymgorffori'n llawn ar draws holl swyddogaethau'r sefydliad.

7.9 Mewn achosion eraill, yn enwedig parciau cenedlaethol, ystyriwyd bod cynnal a gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau yn greiddiol i'w prif ddibenion ac felly roedd gofynion y ddyletswydd wedi'u hymgorffori ar draws y sefydliad gyda disgwyliadau clir y byddai staff a phartneriaid allweddol yn helpu i gyflawni hyn.

7.10 Mewn sefydliadau nad oeddent yn awdurdodau lleol, roedd datblygu blaengynllun ar gyfer y ddyletswydd wedi arwain at wneud pethau mewn ffordd fwy systematig.

7.11 Mewn o leiaf bedwar o'r awdurdodau cyhoeddus a gafodd eu cyfweld, roedd swyddog bioamrywiaeth neu swyddog cynaliadwyedd newydd bellach yn ei swydd, ac mewn dau o'r achosion hyn, roedd y ddyletswydd wedi cyfrannu at y penderfyniad i greu'r swyddi hyn. Gwelodd y sefydliadau hyn gyfle i'r rolau newydd hyn greu dealltwriaeth o faterion yn ymwneud â bioamrywiaeth ar draws y sefydliad ac ymgorffori gofynion y ddyletswydd ymhellach mewn gweithgareddau.

*Mwy o ymrwymiad i wyrdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth*

7.12 At ei gilydd, ychydig iawn o dystiolaeth a ddarparwyd yn ystod y cyfweliadau bod awdurdodau cyhoeddus yn dangos mwy o ymrwymiad i wyrdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Er gwaethaf hyn, cofnodwyd rhai enghreifftiau, gan gynnwys y canlynol:

- soniodd un awdurdod cyhoeddus sut yr oedd y ddyletswydd wedi gwneud iddo adolygu'r tir yr oedd yn ei reoli a'i bwysigrwydd ecolegol; wedi caniatáu iddo gyfathrebu'r hyn yr oeddent eisoes yn ei wneud a gwneud iddynt ystyried beth arall y gellid ei wneud.
- roedd awdurdod cyhoeddus rheoledig arall yn gwneud ymrwymiadau corfforaethol heriol newydd i sicrhau, lle nad oedd modd osgoi effeithiau ar fioamrywiaeth ac ecosystemau drwy ei waith, y byddai'n cyflawni enillion net o 10% mewn gwasanaethau bioamrywiaeth ac ecosystem ynghyd â gwella bioamrywiaeth a gwerth amgylcheddol y tir yr oeddent yn berchen arno ac yn ei reoli:

  'y cynnydd hwn yn lefel yr ymrwymiad yw'r newid mwyaf sylweddol a roddwyd ar waith ar draws y busnes cyfan'

- roedd awdurdod cyhoeddus arall a ymatebodd i'r arolwg yn ymgysylltu â'r staff ar strategaeth bioamrywiaeth a datgarboneiddio ac yn ystyried datblygu cynllun gweithredu manwl ochr yn ochr â hyn
- soniodd un awdurdod cyhoeddus am sut yr oedd yn dymuno gweld ardaloedd lleol neu ranbarthau'n cydweithio'n agosach.

Soniodd am awydd cynyddol am fwy o gydweithio ar draws byrddau gwasanaethau cyhoeddus a gweld cyfleoedd i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus weithio gyda CNC yn ei ardal i ystyried prosiectau cymunedol a allai gefnogi ethos y ddyletswydd e.e., plannu coed mewn safleoedd cymunedol allweddol.

*Mwy o ystyriaeth i'r ddyletswydd wrth wneud penderfyniadau*

7.13 Darparwyd rhai enghreifftiau o'r ddyletswydd yn cael ei hintegreiddio i fframweithiau rheoli ffurfiol neu gorfforaethol. Er enghraifft:

- soniodd tri awdurdod cyhoeddus fod y ddyletswydd bellach yn cael ei chynnwys a'i thrafod yn eu cynlluniau neu strategaethau corfforaethol
- mewn un awdurdod cyhoeddus, roedd bioamrywiaeth bellach wedi'i gyflwyno fel ystyriaeth hanfodol yn ei bolisi caffael
- mewn un awdurdod lleol, roedd y ddyletswydd bellach wedi'i chynnwys yn ei offeryn integreiddio polisïau a soniodd dau arall sut yr oedd bellach yn rhan o'u prosesau asesu effaith
- soniodd un awdurdod cyhoeddus a ymatebodd i'r arolwg sut yr oedd bioamrywiaeth bellach yn cael ei ystyried yn fwy ffurfiol wrth baratoi blaenraglenni gwaith.

7.14 Teimlai rhai awdurdodau cyhoeddus a gyfwelwyd fod mwy o amlygrwydd yn cael ei roi i faterion yn ymwneud â bioamrywiaeth yn eu sefydliad, gydag uwch reolwyr yn ysgogi gwelliant ac ystyriaeth fwy ffurfiol yn cael ei rhoi i fioamrywiaeth wrth wneud penderfyniadau. Fodd bynnag, nid oedd hon yn neges gyffredin - roedd adborth gan sawl awdurdod cyhoeddus arall yn awgrymu nad oedd ystyriaethau bioamrywiaeth yn uchel ar yr agenda ar lefel uchaf y sefydliad a bod materion eraill, fel yr amgylchedd, yn aml yn cael blaenoriaeth oherwydd bod cymaint o alwadau ar sefydliadau yn y maes hwn:

'mae perygl mawr bod bioamrywiaeth yn fater sy'n cael ei golli yn sgil y flaenoriaeth i leihau allyriadau carbon'.

7.15 Fodd bynnag, roedd ambell ymatebydd a gyfwelwyd yn teimlo bod gwybodaeth am gynaliadwyedd yn gyffredinol yn cynyddu ar lefel strategol yn eu sefydliad, ac roedd bioamrywiaeth yn un elfen o hynny.

Mae gan **Gyngor Caerdydd** gyfres o bolisïau yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a fabwysiadodd ganddo sy'n ymwneud â safleoedd dynodedig, rhwydweithiau ecolegol, cynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth, a choed/gwrychoedd. Yn ogystal, mae un o bolisïau allweddol y CDLl yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor ddefnyddio dull integredig o reoli seilwaith gwyrdd yn ystod gwaith datblygu.

Gweithredir y polisïau hyn yn llawn pan nodir effeithiau tebygol sylweddol ar seilwaith gwyrdd.

Mae Cyngor Caerdydd wedi paratoi a chyhoeddi Blaengynllun y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau, wedi cymeradwyo Canllawiau Cynllunio Atodol cynhwysfawr ar 'Seilwaith Gwyrdd', wedi cyflogi Swyddog Partneriaeth Natur Lleol ac wedi dechrau ar y broses o lunio Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol ar gyfer y Ddinas.

Mae ystyried seilwaith gwyrdd a bioamrywiaeth hefyd yn rhan annatod o Strategaeth Caerdydd Un Blaned y ddinas.

*Gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ar draws y sefydliad*

7.16 Soniodd ambell awdurdod cyhoeddus a arolygwyd fod mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ar lefel uwch a gweithredol ynghylch gofynion y ddyletswydd ond roedd llawer o sefydliadau mwy yng Nghrŵp 3 yn teimlo bod hyn yn parhau i fod yn 'dameidiog'.

7.17 Nododd awdurdodau cyhoeddus a gyfwelwyd sut yr oedd y ddyletswydd wedi codi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth ar draws eu sefydliad dim ond oherwydd bod yn rhaid paratoi adroddiad a'i gymeradwyo. Er enghraifft, roedd swyddog bioamrywiaeth un awdurdod lleol yn gweld mwy o adrannau yn cysylltu ag ef i ofyn am gyngor. Nododd dau awdurdod cyhoeddus arall a arolygwyd sut roedd bioamrywiaeth bellach yn bwnc trafod mwy rheolaidd ymysg y staff:

'mae staff yn trafod bioamrywiaeth yn fwy, maent yn fwy agored i syniadau ac i newid, ac rydym yn barod ar gyfer cam nesaf ein gwaith'.

7.18 Soniodd un awdurdod cyhoeddus hefyd ei fod wedi datblygu modiwl e-ddysgu ar y ddyletswydd bioamrywiaeth i'r holl staff.

7.19 Yn gyffredinol, ychydig iawn o dystiolaeth a ddarparwyd o sut yr oedd ystyriaethau bioamrywiaeth yn cael eu cyfleu o fewn sefydliadau neu i'r gymuned ehangach. Roedd rhai awdurdodau cyhoeddus fel prifysgolion yn ceisio codi ymwybyddiaeth ymhlith staff a myfyrwyr, ond roedd yn dal i fod yn wir mai dim ond y rhai yr oedd ganddynt eisoes ddiddordeb mewn bioamrywiaeth a oedd yn debygol o fod yn ymwybodol o'r ddyletswydd yn hytrach na staff ar draws y sefydliad cyfan. Roedd un awdurdod lleol wedi dechrau gweld rhai aelodau o'r cyhoedd yn gofyn cwestiynau ynghylch sut yr oedd y cyngor yn gweithredu'r ddyletswydd ac roedd hyn yn cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith aelodau etholedig.

7.20 Teimlai tri o'r awdurdodau a gyfwelwyd o Grŵp 1, sy'n awdurdodau llai, fod effaith y ddyletswydd ar eu sefydliad wedi bod yn fwy cyfyngedig dim ond am nad oeddent yn teimlo eu bod yn gallu cyflawni llawer i wneud gwahaniaeth mawr pan oeddent yn gweithio mewn swyddfa fach ar rent heb dir.

Ym **Mhrifysgol Wrecsam Glyndŵr**, mae adrodd ar gynnydd yn erbyn y ddyletswydd bellach yn rhan o'r holl ffrydiau gwaith ac mae'n rhywbeth sy'n ofynnol ar draws y sefydliad. O ganlyniad i'r gofyniad i gydymffurfio â'r ddyletswydd, bu cynnydd mewn cyfathrebu â myfyrwyr a'r gymuned ehangach ynghylch bioamrywiaeth a'r amgylchedd.

Ymgymerwyd â rhai prosiectau penodol hefyd o ganlyniad gan gynnwys datblygu llwybr bioamrywiaeth drwy ganol tref Wrecsam. Mae hyn wedi golygu gosod cyfres o flychau plannu llawn planhigion er mwyn denu peillwyr sy'n arwain pobl at Ardd Wyddoniaeth y Brifysgol. Yn y dyfodol, mae Undeb y Myfyrwyr yn bwriadu gwneud mwy o waith plannu o amgylch y campws. Mae'r Brifysgol hefyd yn

newid ei chontract cynnal a chadw tir i roi mwy o sylw i fioamrywiaeth ac yn newid trefniadau torri gwair.

**Y gwahaniaeth a wnaed i wrthdroi'r dirywiad mewn Bioamrywiaeth**

7.21 Mae'r gwahaniaeth a wnaed i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yn amrywio yn ôl y math o sefydliad.

*Awdurdodau lleol*

7.22 Nododd y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol a gyfrannodd at yr adolygiad eu bod eisoes yn cyflawni canlyniadau bioamrywiaeth cyn i'r ddyletswydd gael ei chyflwyno. Er gwaethaf hyn, roeddent i gyd yn teimlo bod y gofyniad cyfreithiol i gydymffurfio â'r ddyletswydd wedi helpu i roi mwy o amlygrwydd a phwysigrwydd i'w gwaith yn eu sefydliad. Er bod gwaith i'w wneud o hyd i sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei ystyried ym mhob awdurdod gwneud penderfyniadau, amlygwyd bod nifer o gamau allweddol wedi gwneud gwahaniaeth. Mae'r canlynol yn arbennig o nodedig:

- roedd nifer yn teimlo bod y ddyletswydd (ochr yn ochr â chyfeiriadau ati ym Mholisi Cynllunio Cymru a'r Ddeddf Llesiant), a'r llythyr a anfonwyd gan y Prif Gynllunydd at bob awdurdod lleol yn nodi sut y dylid ystyried y ddyletswydd mewn sefyllfaoedd cynllunio, wedi sicrhau bod y cyngor y maent yn ei roi ar geisiadau cynllunio yn bwysicach
- mae nifer o awdurdodau bellach wedi cynnwys y ddyletswydd a bioamrywiaeth yn eu hoffer datblygu polisïau i sicrhau bod pob polisi a phrosiect newydd yn ystyried y mater o'r cychwyn cyntaf
- nododd un awdurdod, o ganlyniad i'r ddyletswydd, ei fod wedi ymgorffori ecolegydd prosiect yn y tîm dylunio peirianneg gan sicrhau bod ystyriaethau bioamrywiaeth yn cael eu cynnwys mewn prosiectau o'r cychwyn cyntaf yn hytrach na rhywbeth sy'n ychwanegiad ar ddiwedd y broses er mwyn cael caniatâd cynllunio

- Nododd un awdurdod hefyd ei fod yn teimlo y byddai'r ddyletswydd yn ei helpu i sicrhau y byddai'r holl waith yr oedd wedi'i wneud i wella bioamrywiaeth yn ei ardal dros y 30 mlynedd diwethaf yn cael ei reoli a'i gynnal ar gyfer y dyfodol.

O ganlyniad i adran 6, roedd **Cyngor Sir Ynys Môn** wedi llwyddo i gael gafael ar dros 100 o flychau nythu ar gyfer y wennol ddu ar ddatblygiadau newydd fel rhan o amodau cynllunio. Er nad ydynt eto wedi monitro faint o'r blychau hyn sydd wedi'u gosod hyd yma, mae hyn yn gam sylweddol ymlaen i sicrhau cynefin priodol i'r rhywogaeth.

*Awdurdodau cyhoeddus eraill*

7.23 I awdurdodau cyhoeddus eraill, mae'r ddyletswydd wedi rhoi cyfle iddynt ystyried sut y mae eu ffyrdd o weithio yn effeithio ar fioamrywiaeth. Yn gyffredinol, gellir rhannu'r dulliau a ddefnyddir yn ddau gategori:

- y rhai sydd â chyfrifoldeb am dir (Grwpiau 2 a 3)
- y rhai heb unrhyw gyfrifoldeb am dir (Grŵp 1).

*Awdurdodau cyhoeddus eraill sydd â chyfrifoldeb am dir*

7.24 I'r awdurdodau cyhoeddus hynny sydd â chyfrifoldeb am dir, roedd yr erwau dan sylw yn amrywio o dir o amgylch swyddfa, ystâd aml-safle neu hyd yn oed gyfrifoldeb am ffermydd a thir â mynediad agored iddo.

7.25 I'r sefydliadau hyn, roedd y camau gweithredu'n tueddu i ganolbwyntio ar reoli tir ac roedd y newid ymddygiad mwyaf cyffredin yn ymwneud â thorri gwair yn llai aml a'i reoli ar gyfer peillwyr. Gall hyn hefyd gael effaith ariannol fuddiol gan ei wneud yn gam gweithredu lle y cafwyd canlyniadau cyflym ac yn rhywbeth sy'n hawdd ei 'werthu' i'r rhai sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau.

7.26 Ymhlith y mathau eraill o ymyriadau a amlygwyd roedd:

- datblygu gerddi llesiant bywyd gwyllt
- gosod blychau adar ac ystlumod
- creu pentyrrau o logiau pan oedd angen torri coed
- cynyddu'r defnydd o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu.

7.27 Soniodd sefydliadau â daliadau tir mawr fod y ddyletswydd, ac yn benodol ysgrifennu'r cynllun gweithredu, yn rhoi cyfle iddynt ystyried y tir yr oeddent yn gyfrifol amdano a gwireddu eu dyletswydd i sicrhau stiwardiaeth dda ar gyfer y dyfodol. Nodwyd rhywogaethau newydd a daeth hyd yn oed ddarnau o dir a aeth yn angof i'r amlwg gyda systemau rheoli newydd yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer y dyfodol. O ganlyniad uniongyrchol i'r ddyletswydd, bydd y darnau hyn o dir yn cael eu rheoli'n fwy priodol er budd bioamrywiaeth.

*Awdurdodau cyhoeddus eraill nad oes ganddynt gyfrifoldeb am dir*

7.28 I'r rhai heb unrhyw dir, mae awdurdodau cyhoeddus wedi mabwysiadu dull mwy ochrol i leihau effaith eu camau gweithredu drwy bolisïau caffael a theithio. I ddechrau roedd yn her i'r sefydliadau hyn nodi camau y gallent eu cymryd i wneud gwahaniaeth. Mae'r mwyafrif o'r camau gweithredu a gynigir yn canolbwyntio ar weithgareddau swyddfa fel defnyddio papur wedi'i ailgylchu a'r rhai na fyddant o reidrwydd yn cael effaith uniongyrchol ar fioamrywiaeth yng Nghymru.

7.29 Nododd un sefydliad a gyfwelwyd, yn dilyn COVID-19 a newid mewn arferion gwaith, ei fod yn awyddus i leihau maint ei swyddfa. O ganlyniad uniongyrchol i'r ddyletswydd, maent yn bwriadu dod o hyd i leoliad newydd a fydd yn agos at drafnidiaeth gyhoeddus, gyda nifer cyfyngedig o leoedd parcio i'r staff, bydd yr holl ddodrefn yn cael ei ailgylchu o'r hen swyddfa, ac mae'n bwriadu defnyddio cyflenwr ynni gwyrdd.

Mae **Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru** wedi cyflwyno gerddi llesiant ar bob un o'i safleoedd. Yn gyffredinol, mae'r gerddi hyn, a

ddyluniwyd yn aml mewn cydweithrediad ag ysgolion lleol, yn cynnwys nodweddion fel blychau adar, llety pryfed a blodau gwyllt. Ystyriwyd cyflwyno cychod gwenyn mewn rhai lleoliadau fel rhan o'u hymdrechion i ddiogelu ac annog bywyd gwyllt. Mae ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion bioamrywiaeth wedi cynyddu ac mae'n cael effeithiau cadarnhaol ar weithrediadau eraill o ddydd i ddydd.

Mae **Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru** wedi croesawu'r ddyletswydd. Maent bellach yn torri gwair yn llai aml er mwyn helpu peillwyr ac yn ceisio defnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu lle bynnag y bo modd. Adeiladwyd cartref newydd y gwasanaeth yn Aberystwyth gyda 95 y cant o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu. Nodwyd mai eu gweithgaredd mwyaf niweidiol yw defnyddio ewyn diffodd tân, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle y gall niweidio bywyd gwyllt, ac mae wrthi'n ceisio newid hyn am ddull sy'n fwy cyfeillgar i'r amgylchedd. Nod y Swyddog Cynaliadwyedd yw nodi wyth cam i'w gweithredu bob blwyddyn i helpu'r gwasanaeth i wella'n gyson sut mae'n darparu ei wasanaethau ac yn rheoli ei ystâd.

Cynigiodd yr angen i gydymffurfio â'r ddyletswydd y cyfle i **Brifysgol Bangor** adolygu a deall y dalaidau tir sydd ganddi. Bu ysgrifennu'r cynllun o gymorth i dynnu sylw at yr holl rywogaethau, cynefinoedd a safleoedd gwarchodedig yr oedd y brifysgol yn gyfrifol amdanynt a nodi sut yr oedd yn mynd i'w rheoli yn y dyfodol. Mae wedi helpu'r brifysgol i symud o sefyllfa o feddwl bod hyn yr hyn sydd ganddi'n braf i orfod meddwl ei fod yn bwysig a bod angen iddi ofalu amdano hyd eithaf ei gallu.

## 8. Casgliadau ac argymhellion

8.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno ein casgliadau, yn seiliedig ar yr adolygiad desg a'r gwaith maes, ac mae'n cynnig argymhellion i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus eu hystyried ar gyfer y dyfodol.

**I ba raddau y mae'r ddyletswydd wedi'i gweithredu**

8.2 Canfu'r gwerthusiad fod 56 y cant o awdurdodau cyhoeddus (62 o'r 110 a oedd o fewn cwmpas yr astudiaeth) yn cydymffurfio â gofynion y ddyletswydd, yn yr ystyr eu bod wedi llunio cynlluniau neu adroddiadau Adran 6. Mae'r canfyddiad hwn yn awgrymu bod angen rhagor o waith i wella cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd a gwella ei gweithrediad. Mae mwyafrif y cynlluniau ac adroddiadau yn ddogfennau annibynnol ac ychydig iawn o awdurdodau cyhoeddus sydd wedi mabwysiadu'r awgrym a wnaed yn y canllawiau i ymgorffori'r adroddiadau mewn dogfennau corfforaethol. Mae hyn yn awgrymu bod angen rhagor o waith i ymgorffori'r ddyletswydd ar draws awdurdodau cyhoeddus.

8.3 Roedd mwyafrif y cynlluniau a'r adroddiadau a ystyriwyd fel rhan o'r gwerthusiad hwn yn gynhwysfawr. Canfuwyd mai'r cynlluniau/adroddiadau cryf oedd y rhai a oedd wedi eu pwyso a'u mesur yn dda, yn seiliedig ar dystiolaeth glir, yn hawdd eu darllen, wedi'u cynllunio'n dda, yn ddeniadol iawn i'r llygad, yn cyfeirio'n glir at amcanion NRAP ac yn cynnwys camau gweithredu a chyflawniadau penodol a mesuradwy. Mae'r cynlluniau/adroddiadau gwannach yn tueddu i fod yn fyrrach a llai o ôl meddwl arnynt, yn debycach i ddatganiad polisi na chynllun gweithredu, ac yn canolbwyntio'n ormodol ar gamau gweithredu amgylcheddol yn hytrach na chamau gweithredu'n ymwneud â bioamrywiaeth.

8.4 Canfu’r gwerthusiad fod y ddyletswydd wedi arwain at rai effeithiau cadarnhaol yn yr ystyr ei bod wedi helpu i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fioamrywiaeth ar draws awdurdodau cyhoeddus. Mae wedi cyfrannu'n gadarnhaol, ond i raddau llai, at ymgorffori bioamrywiaeth yn fwy ym mhenderfyniadau awdurdodau cyhoeddus a'r

gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Mae'r gwahaniaeth a wneir i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yn amrywio yn ôl y math o sefydliad gan fod llawer o awdurdodau lleol eisoes yn weithredol yn y maes hwn cyn i'r ddyletswydd gael ei chyflwyno. Yn yr achosion hyn mae'r ddyletswydd wedi helpu i roi mwy o amlygrwydd a phwysigrwydd i'r agenda. Dywed llawer o awdurdodau cyhoeddus eu bod bellach yn torri gwair yn llai aml nag o'r blaen ac yn ei reoli'n well er budd peillwyr a bywyd gwyllt arall. Ymhlith y newidiadau eraill a gyflwynwyd mae gerddi bywyd gwyllt a llesiant, blychau adar ac ystlumod, a chreu pentyrrau o logiau pan fydd coed yn cael eu torri.

8.5 Mae sawl rheswm pam nad yw awdurdodau cyhoeddus wedi paratoi na chyhoeddi cynllun/adroddiad gan gynnwys oedi gyda phrosesau cymeradwyo ffurfiol (yn aml oherwydd COVID-19), diffyg ymwybyddiaeth o'r angen i lunio adroddiad, a diffyg amser ac adnoddau i wneud hynny. Un o'r prif resymau pam nad yw cynghorau cymunedol a thref wedi paratoi na chyhoeddi cynllun nac adroddiad yw'r ffaith eu bod wedi cael gwybod yn hwyr iawn yn y dydd bod angen iddynt wneud hynny a diffyg adnoddau gwybodaeth. Gellid mynd i'r afael â llawer o'r materion hyn drwy'r argymhellion a gynigir isod.

**Galluogwyr a'r rhwystrau i weithredu'r ddyletswydd**

8.6 Mae tair thema i'r rhwystrau a'r galluogwyr allweddol i weithredu'r ddyletswydd, sef adnoddau; gwybodaeth a hysbysrwydd; a blaenoriaethau a dylanwadau. Diffyg adnoddau oedd y prif rwystr a nodwyd, yn enwedig gan awdurdodau lleol, oherwydd toriadau'n ymwneud â chyni, lleihad mewn timau 'gwyrdd' a newidiadau i'r ffordd y mae gwaith bioamrywiaeth yn cael ei ariannu. Mae gan lawer o awdurdodau cyhoeddus nad oes ganddynt staff adnoddau naturiol pwrpasol ddiffyg arbenigedd a gwybodaeth am fioamrywiaeth ac mae awdurdodau llai heb dir wedi ei chael hi'n anodd nodi camau y gallant eu cymryd. Nid yw'r ddyletswydd wedi sicrhau'r un lefel o amlygrwydd â blaenoriaethau eraill, megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r agenda newid yn yr hinsawdd, ar draws awdurdodau cyhoeddus ac mae angen mynd i'r afael â hyn yn y dyfodol.

**Barn ar y canllawiau a ddarperir**

8.7 Ar y cyfan, roedd ymwybyddiaeth gref o'r canllawiau ymhlith y rhai a oedd wedi paratoi cynllun neu adroddiad ac roedd y mwyafrif o awdurdodau cyhoeddus wedi defnyddio'r canllawiau i baratoi'r rhain ac wedi eu cael yn ddefnyddiol o ran darparu fframwaith a strwythur iddynt. Teimlwyd y gallai Llywodraeth Cymru gyfathrebu'n fwy rheolaidd ag awdurdodau cyhoeddus, yn arbennig i godi ymwybyddiaeth ar lefel uwch o bwysigrwydd cydymffurfio â'r ddyletswydd a chodi proffil y ddeddfwriaeth. Teimlai llawer o awdurdodau cyhoeddus y dylai adroddiadau adran 6 fod yn destun mwy o atebolrwydd a byddent yn croesawu adborth ac awgrymiadau adeiladol ar eu cynnwys.

8.8 Mae ein hargymhellion yn ymdrin yn fras â dwy thema: sut i wella cydymffurfiaeth ar draws awdurdodau cyhoeddus ac argymhellion ynghylch canllawiau, cymorth a hyfforddiant pellach sy'n ofynnol i alluogi'r rhain i ddigwydd. Rydym yn gwneud yr argymhellion canlynol:

**Argymhelliad 1**: Mae angen mwy o eglurder ynghylch yr awdurdodau cyhoeddus sy'n dod o fewn cwmpas y ddyletswydd. Canfu'r adolygiad hwn enghreifftiau lle roedd awdurdodau cyhoeddus yn aneglur a oedd angen iddynt gydymffurfio â'r ddyletswydd ac wedi tybio, cyn i ni gysylltu â nhw, nad oeddent o fewn cwmpas y ddyletswydd. Mae'r diffyg ymateb gan 38 o awdurdodau cyhoeddus i'r adolygiad hwn yn golygu bod angen gwneud rhagor o waith i ganfod a yw'r awdurdodau hyn yn dod o fewn cwmpas y ddyletswydd, ac os felly, dylai Llywodraeth Cymru gyfleu hyn ar fyrder i sefydliadau unigol.

**Argymhelliad 2**: Ar ôl llunio rhestr bendant o'r awdurdodau cyhoeddus sydd o fewn cwmpas y ddyletswydd, dylai Llywodraeth Cymru nodi (o fewn y canllawiau) sut y disgwylir i bob awdurdod cyhoeddus gydymffurfio â gofynion adrodd y ddyletswydd. Byddem yn awgrymu y dylai fod yn ofynnol fel isafswm i awdurdodau cyhoeddus gyflwyno eu cynlluniau a'u hadroddiadau i Lywodraeth Cymru ac y dylid cadw un storfa o'r dogfennau hyn. Efallai y bydd Llywodraeth Cymru am ystyried sut y gallai ddwyn awdurdodau cyhoeddus i gyfrif yn fwy os nad ydynt yn

cydymffurfio â'r gofynion adrodd a nodir gan y ddyletswydd. Gallai hyn gynnwys nodi'r camau a'r camau gweithredu y bydd yn eu cymryd i fynd i'r afael ag achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth, h.y. nodyn atgoffa ffurfiol i awdurdodau cyhoeddus

**Argymhelliad 3**: Mae angen i Lywodraeth Cymru wella'r manylion cyswllt sydd ganddi ar gyfer awdurdodau cyhoeddus at ddibenion cyfleu gwybodaeth iddynt am y ddyletswydd. O ran yr awdurdodau cyhoeddus a gynhwyswyd ar y gronfa ddata a oedd ar gael i'r tîm ymchwil, nid oedd manylion cyswllt ar gael ar gyfer llawer ohonynt neu roedd angen diweddaru'r manylion. Yn ddelfrydol, dylai'r gronfa ddata hon gynnwys manylion ar gyfer prif swyddogion gweithredu yn ogystal ag unigolion sydd wedi bod yn ymwneud â'r ddyletswydd e.e., swyddog bioamrywiaeth/amgylcheddol neu swyddog cydymffurfiaeth/polisi. Casglwyd manylion cyswllt wedi'u diweddaru ar gyfer llawer o'r awdurdodau cyhoeddus fel rhan o'r adolygiad a dylid eu defnyddio fel man cychwyn ar gyfer y gwaith hwn

**Argymhelliad 4**: Dylai Llywodraeth Cymru barhau i godi ymwybyddiaeth o'r ddyletswydd ar draws awdurdodau cyhoeddus, gan sicrhau bod gohebiaeth ysgrifenedig yn cael ei dargedu at gynrychiolwyr ar lefel uwch o fewn awdurdodau cyhoeddus yn ogystal â staff gweithredol sy'n ymwneud â chynllunio ac adrodd yn erbyn y ddyletswydd. Bydd hyn yn arbennig o bwysig yn y cyfnod cyn y bydd yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gynhyrchu eu hail adroddiad ar y ddyletswydd, erbyn diwedd 2022. Mae angen atgyfnerthu'r cyfathrebu â phrif swyddogion gweithredu ar lefel Weinidogol er mwyn cynyddu'r statws a'r amlygrwydd a roddir i'r ddyletswydd

**Argymhelliad 5**: Gallai Llywodraeth Cymru ystyried cynnal digwyddiad neu weminar ar ddiwedd 2021/dechrau 2022 i hyrwyddo'r ddyletswydd a lansio unrhyw ganllawiau newydd i'r sector. Gellid defnyddio'r digwyddiad hwn i nodi amserlenni ar gyfer paratoi ail adroddiad ar y ddyletswydd erbyn diwedd 2022, i glywed gan awdurdodau cyhoeddus o bob un o'r tri grŵp sydd wedi cydymffurfio'n effeithiol â'r ddyletswydd ac i

helpu i hwyluso rhwydweithio rhwng awdurdodau cyhoeddus er mwyn rhannu profiadau ac arfer da

**Argymhelliad 6**: Mae angen i Lywodraeth Cymru ystyried sut y gall ddarparu cydnabyddiaeth ac adborth gwell i awdurdodau cyhoeddus sy'n rhannu eu hadroddiadau cyhoeddedig. Mae angen adnoddau priodol ar gyfer y gwaith hwn fel y gall helpu i wella cynllunio a chyflawni dyletswyddau bioamrywiaeth ar draws awdurdodau cyhoeddus. Heb roi'r rôl hon ar waith i fonitro ac adolygu gwaith awdurdodau cyhoeddus, mae perygl na fydd awdurdodau yn cynnal y ddyletswydd fel blaenoriaeth

**Argymhelliad 7**: Efallai yr hoffai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gallai awdurdodau cyhoeddus Grŵp 1, yn ogystal â chynghorau tref a chymuned, gael eu cefnogi'n well o ran mynediad at gyngor ac arweiniad arbenigol o ystyried nad yw'r garfan hon yn tueddu i feddu ar arbenigedd mewnol ar fioamrywiaeth i helpu i ddatblygu eu cynlluniau bioamrywiaeth

**Argymhelliad 8**: Mae lle i wella'r canllawiau cyhoeddedig ar gyfer y ddyletswydd drwy gynnwys:

- enghreifftiau o arferion gorau megis astudiaethau achos
- dolenni i gynlluniau ac adroddiadau o ansawdd da a luniwyd gan awdurdodau cyhoeddus eraill, gan nodi'r hyn a ystyrir yn gryfderau
- awgrymiadau ar sut y gallai gweithio mewn partneriaeth helpu awdurdodau cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion bioamrywiaeth
- cyngor ar sut y gall y ddyletswydd gyfateb yn well â blaenoriaethau eraill, gan gynnwys datganiadau ardal, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r agenda argyfwng hinsawdd
- camau ac enghreifftiau penodol y gall awdurdodau cyhoeddus Grŵp 1, heb dir, eu dilyn er mwyn gwella bioamrywiaeth.

## Atodiad A: Arolwg Ar-lein

### Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Ymchwil OB3 a Phartneriaeth BRO i werthuso gweithrediad Dyletswydd Bioamrywiaeth Adran 6.

Mae Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 wedi rhoi Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau ar waith ar gyfer awdurdodau cyhoeddus. I gydymffurfio gyda’r ddyletswydd mae gofyniad ar awdurdodau cyhoeddus i ymgorffori ystyriaeth o fioamrywiaeth ac ecosystemau yn eu gweithgareddau, polisïau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau o ddydd i ddydd. Cyflwynodd y ddyletswydd ofyniad cynllunio ac adrodd newydd. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus baratoi a chyhoeddi cynllun. Rhaid i bob awdurdod cyhoeddus hefyd baratoi a chyhoeddi adroddiad ar yr hyn y maent wedi'i wneud i gydymffurfio â’r ddyletswydd.

Fel rhan o'r gwerthusiad hwn, rydym am sefydlu faint o awdurdodau cyhoeddus sydd wedi cyhoeddi cynllun neu adroddiad.

Nodwch **nad** yw'r gwerthusiad hwn ynghylch perfformiad awdurdodau cyhoeddus unigol na dosrannu unrhyw fai neu gymryd camau cosbol, ond yn hytrach er mwyn sefydlu gwaelodlin, ac ystyried sut mae'r ddyletswydd wedi'i gweithredu hyd yma a sut y gellid gwella ar hyn.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech gymryd ychydig funudau i gwblhau'r holiadur cryno hwn.

| | |
|---|---|
| Enw'r sefydliad | |
| Enw'r swyddog sy'n ymateb | |
| Ebost y swyddog sy'n ymateb | |

| | |
|---|---|
| 1. Pa mor gyfarwydd ydych chi'n bersonol gyda dyletswydd bioamrywiaeth ac ecosystemau Adran 6? | • Cyfarwydd iawn<br>• Gweddol gyfarwydd<br>• Ddim yn arbennig o gyfarwydd<br>• Ddim yn gyfarwydd o gwbl |

| | |
|---|---|
| 2. I ba raddau y mae eich sefydliad wedi cofleidio dyletswydd bioamrywiaeth Adran 6? | • I raddau helaeth<br>• I ryw raddau<br>• Ddim i raddau helaeth iawn<br>• Ddim o gwbl |
| 3. Faint o gynnydd fyddech chi'n ei ddweud y mae eich sefydliad wedi'i wneud o ran ei ddyletswyddau o dan Adran 6? | • Cynnydd sylweddol<br>• Rhywfaint o gynnydd<br>• Dim rhyw lawer o gynnydd<br>• Dim cynnydd o gwbl |
| 4. I ba raddau fyddech chi'n dweud bod ystyriaethau bioamrywiaeth wedi'u hymgorffori ar lefel uwch yn eich sefydliad? | • I raddau helaeth<br>• I ryw raddau<br>• Ddim i raddau helaeth iawn<br>• Ddim o gwbl |

| | |
|---|---|
| 5. A yw'ch sefydliad wedi cyhoeddi cynllun yn nodi sut y byddwch yn cwrdd â gofynion dyletswydd Adran 6? | • Do, fe'i paratowyd fel dogfen arunig<br>• Ydy, mae wedi'i ymgorffori mewn adroddiad sefydliad sy'n bodoli eisoes (e.e. adroddiad blynyddol)<br>• Na ddim eto, rydyn ni'n gweithio arno<br>• Na, nid oes unrhyw waith wedi'i wneud arno |
| 6. A yw'ch sefydliad wedi cyhoeddi adroddiad yn nodi sut rydych wedi cydymffurfio â dyletswydd Adran 6? | • Do, fe'i paratowyd fel dogfen arunig<br>• Ydy, mae wedi'i ymgorffori mewn adroddiad sefydliad sy'n bodoli eisoes (e.e. adroddiad blynyddol)<br>• Na ddim eto, rydyn ni'n gweithio arno<br>• Na, nid oes unrhyw waith wedi'i wneud arno |
| [Cwestiwn wedi'i gyfeirio] 7. A yw cynllun ac adroddiad y sefydliad yn ddogfen gyfun? | • Ydyn<br>• Nac ydyn |

| | |
|---|---|
| 8. A allech chi atodi copi o'ch cynllun a / neu adrodd yma? Fel arall, darparwch ddolen i'r cynllun / adroddiad cyhoeddedig. | |

*Os oes cynllun a / neu adroddiad wedi ei gyhoeddi:*

| | |
|---|---|
| 9. A yw cydymffurfio â dyletswydd Adran 6 wedi arwain at unrhyw un o'r newidiadau canlynol ar draws y sefydliad? | [dewiswch bob un sy'n berthnasol]<br>• Mae gwell ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth ar draws y sefydliad<br>• Mae gwell dealltwriaeth o fioamrywiaeth ar draws y sefydliad<br>• Mae mwy o ymrwymiad i wyrdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth ar draws y sefydliad<br>• Rhoddir mwy o ystyriaeth i fioamrywiaeth wrth wneud penderfyniadau<br>• Rhoddir mwy o ystyriaeth i fioamrywiaeth wrth ddarparu gwasanaethau<br>• Mae bioamrywiaeth wedi ymsefydlu'n fwy ar draws y sefydliad<br>• Unrhyw newidiadau eraill (nodwch) |
| 10. Beth fyddech chi'n ei ddweud fu'r newid mwyaf, os o gwbl, i'ch sefydliad o ganlyniad i gydymffurfio â dyletswydd adran 6? | |

*Os nad oes cynllun nac adroddiad wedi ei gyhoeddi:*

| | |
|---|---|
| 11. Pam nad yw eich sefydliad wedi cyhoeddi cynllun nac adroddiad? | |

| | |
|---|---|
| 12. Pa ganllawiau neu gefnogaeth (ee mynediad i linell gymorth ar y we neu dros y ffôn, enghreifftiau o arfer da), os o gwbl, a fyddai o gymorth i'ch sefydliad gyflawni eich dyletswydd gyfreithiol? | |

| | |
|---|---|
| 13. A ydych am wneud unrhyw sylwadau eraill mewn perthynas â'r Ddyletswydd Adran 6? | |

# Atodiad B: Canllaw trafod ar gyfer awdurdodau cyhoeddus

## A: Cefndir

1. Beth yw eich rôl bresennol?

2. Ym mha ffordd, os o gwbl, ydych chi wedi bod yn ymwneud â Dyletswydd Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016?

    - Beth ydych chi'n ei ddeall am Ddyletswydd Adran 6 a'r gofynion ar eich sefydliad?
    - Sut mae eich sefydliad wedi ymateb i Ddyletswydd Adran 6 ac yn ei chroesawu?

3. Faint o gynnydd fyddech chi'n ei ddweud y mae eich sefydliad wedi'i wneud o ran ei ddyletswyddau o dan Adran 6?

    - Beth yw natur unrhyw gynnydd a wnaed?

## B: Cynllunio ac adrodd

4. A yw'ch sefydliad wedi cyhoeddi cynllun yn nodi sut y byddwch yn bodloni gofynion dyletswydd Adran 6?

    - Os nad yw, a oes gwaith ar y gweill i lunio cynllun neu adroddiad?

5. A yw'ch sefydliad wedi cyhoeddi adroddiad yn nodi sut rydych chi wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd?

6. Os felly, ar ba fformat mae'r cynllun/adroddiad?

    - A ydynt wedi'u hymgorffori yn yr adroddiadau y mae'r sefydliad eisoes yn eu llunio cynhyrchu? Os felly, pa rai?
    - A ydynt wedi'u cyfuno?
    - Pryd y cawsant eu llunio a'u cyhoeddi?
    - A allwn gael mynediad atynt?

7. Beth oedd y broses ar gyfer llunio a chymeradwyo'r cynllun/adroddiad ar gyfer y sefydliad?

    - Pwy arweiniodd y broses a phwy arall fu'n ymwneud â hyn?
    - Beth oedd y broses ar gyfer cymeradwyo'r cynllun/adroddiad (e.e. cymeradwyaeth pwyllgor/bwrdd)?
    - Pa mor hir gymerodd y broses?

8. Pa mor ddefnyddiol, os o gwbl, oedd y canllawiau ac amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur (NRAP) i'ch sefydliad wrth ddatblygu eich cynllun/adroddiad?

- Beth oedd yn ddefnyddiol/ddim mor ddefnyddiol amdanynt?
- Pa mor ddefnyddiol oeddent ar gyfer nodi a datblygu camau penodol y mae'r sefydliad wedi'u cymryd ers hynny (gofynnwch am enghreifftiau)?
- Sut y gellid eu gwella?
- Pa ddogfennau neu fformatau canllaw newydd fyddai'n ddefnyddiol?

**C: Cyfatebiaeth cynlluniau ac adroddiadau â'r ddyletswydd**

9. I ba raddau y mae ystyriaethau bioamrywiaeth yn cael eu hymgorffori yn y sefydliad?

    - A yw ystyriaethau bioamrywiaeth wedi'u hymgorffori mewn trafodaethau a phenderfyniadau ar lefel uwch?
    - A yw ystyriaethau bioamrywiaeth wedi'u hymgorffori mewn cynlluniau sefydliadol corfforaethol a/neu gynlluniau lefel uchel eraill?
    - Ym mha ffordd y mae'r sefydliad wedi defnyddio amcanion NRAP?
    - Pa rwystrau, os o gwbl, sy'n cyfyngu ar ymgorffori ystyriaethau bioamrywiaeth ar draws y sefydliad?

**D. Os nad oes cynllun nac adroddiad wedi ei gyhoeddi:**

10. Pam nad yw eich sefydliad wedi cyhoeddi cynllun nac adroddiad?

    - Beth yw'r rhwystrau i wneud hynny?
    - Sut y gellid goresgyn y rhwystrau hyn?

11. Ydych chi'n ymwybodol o'r canllawiau adrodd cyfredol?

12. Pa ganllawiau neu gymorth arall, os o gwbl, a fyddai o gymorth i'ch sefydliad gyflawni eich dyletswydd gyfreithiol?

**E. Rhwystrau a galluogwyr**

13. Beth fyddech chi'n ei nodi fel y prif alluogwyr i roi'r ddyletswydd ar waith?
    - Pa ffactorau sydd wedi ysgogi ei gweithrediad?
    - Holwch am sbardunau mewnol (e.e. arbenigedd, hyrwyddwr allweddol, pwysau gan ddefnyddwyr)
    - Holwch am faterion allanol (e.e. dirywiad mewn bioamrywiaeth, cyfleoedd cyllido)
14. Beth fyddech chi'n ei nodi fel y prif rwystrau i weithredu'r ddyletswydd?
    - Holwch am faterion mewnol (e.e. adnoddau, arbenigedd, diffyg arian, diffyg dealltwriaeth ynghylch pa gamau y gallent eu cymryd)
    - Holwch am faterion allanol (e.e. COVID-19, diffyg canllawiau)

**D. Y gwahaniaeth a wnaed**

15. Pa newidiadau, os o gwbl, y mae eich sefydliad wedi'u profi o ganlyniad i gydymffurfio â dyletswydd adran 6?
    - Holwch am yr ystyriaeth a roddir i fioamrywiaeth wrth wneud penderfyniadau
    - Gofynnwch i ba raddau y mae fframwaith llywodraethu a chymorth ar gyfer darparu gwasanaethau wedi'i sefydlu
    - Gofynnwch i ba raddau y mae bioamrywiaeth wedi ymgorffori'n fwy ar draws y sefydliad
    - Gofynnwch i ba raddau y mae ystyriaethau bioamrywiaeth yn cael eu cyfathrebu o fewn y sefydliad
    - Holwch am lefelau ymwybyddiaeth ymhlith aelodau, arweinwyr, staff, defnyddwyr a phleidleiswyr

16. Pa ffyrdd newydd o weithio, os o gwbl, sydd wedi'u cyflwyno gan eich sefydliad o ganlyniad i gydymffurfio â'r ddyletswydd?

17. Pa gyfraniad, os o gwbl, y mae cydymffurfio â'r ddyletswydd wedi'i wneud i adfer y dirywiad mewn bioamrywiaeth e.e. diogelu rhywogaethau a chynefinoedd, gwella cydnerthedd cynefinoedd ac ati?

    - Holwch am yr effaith ar ddiogelu rhywogaethau a chynefinoedd pwysig
    - Holwch am gynnydd yng nghydnerthedd ein hamgylchedd naturiol drwy adfer cynefinoedd sydd wedi dirywio a chreu cynefinoedd
    - Holwch am fynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd
    - Pa dystiolaeth sydd gennych o hyn?

**G. Myfyrdodau**

18. Pa gamau pellach y gall eich sefydliad eu cymryd i wella (ymhellach) cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd?

19. Pa ganllawiau, cymorth neu hyfforddiant pellach y byddai eich sefydliad yn eu gwerthfawrogi yn y dyfodol?